Estyn

estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Cymraeg yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog

Mai 2018



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru.  Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- ysgolion pob oed
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau awdurdod addysg lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi.  Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW   neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2018:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen benodol/cyhoeddiad penodol.**

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **1** |
| **Prif ganfyddiadau** | **3** |
| Safonau | 3 |
| Addysgu a phrofiadau dysgu | 4 |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | 4 |
| **Argymhellion** | **6** |
| **Safonau yn y Gymraeg, gan gynnwys agweddau disgyblion tuag at y Gymraeg** | **7** |
| Cyfnod allweddol 2 | 7 |
| Cyfnod allweddol 3 | 10 |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **14** |
| Cyfnod allweddol 2 | 14 |
| Cyfnod allweddol 3 | 18 |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **24** |
| **Atodiad 1: Asesiadau athrawon yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3** | **29** |
| **Atodiad 2: Sail y dystiolaeth** | **36** |
| **Atodiad 3: cwestiynau i ysgolion eu hystyried fel rhan o'u hunanarfarniad** | **37** |
| **Geirfa** | **38** |
| **Cyfeiriadau** | **40** |

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn ymateb i gais yn llythyr cylch gwaith blynyddol ysgrifennydd y cabinet dros addysg at Estyn ar gyfer 2017-2018. Mae'n adrodd ar safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth yn y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. Mae'n ystyried ystod o ffactorau, fel ansawdd yr addysgu a'r asesu, profiadau dysgu ffurfiol ac anffurfiol ac arweinyddiaeth strategol, gan gynnwys cynllunio bwriadus gogyfer â chodi safonau a gwella deilliannau dysgwyr yn y Gymraeg.

Y gynulleidfa a fwriedir ar gyfer yr adroddiad hwn yw Llywodraeth Cymru, penaethiaid ac athrawon Cymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd a swyddogion mewn awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Bydd canfyddiadau'r adroddiad yn helpu i hysbysu'r gwaith o lunio cwricwlwm newydd i Gymru a chontinwwm dysgu'r Gymraeg. Mae'r adroddiad yn cynnwys enghreifftiau o arfer dda a fydd yn annog darparwyr ac ymarferwyr i fyfyrio ar eu harferion cyfredol a'u harfarnu.

## Cefndir

Mae cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a'r nifer o bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd bob dydd yn flaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2015). Er mwyn gwneud yn siŵr bod y cyrff cyhoeddus sydd wedi'u rhestru yn y ddeddf i gyd yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, caiff saith o nodau llesiant eu pennu. Un o'r nodau hynny yw bod gan Gymru 'ddiwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2015, tud. 4).

Roedd cyhoeddi Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010) ynghyd â Iaith fyw: Iaith byw – Strategaeth y Gymraeg 2012-17 (Llywodraeth Cymru, 2012) yn ategu ymrwymiad y llywodraeth i wella ansawdd darpariaeth Gymraeg. Ar sail egwyddorion Cymwys am Oes (Llywodraeth Cymru, 2014) mae Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015) yn cydnabod pwysigrwydd yr iaith Gymraeg yn natblygiad Cymru 'fel cenedl ddwyieithog sydd â'r cryfder a'r hunanhyder i feithrin y ddwy iaith' (Donaldson, 2015, tud. 26).

Mae Y Gymraeg mewn addysg: Cynllun gweithredu 2017-21 (Llywodraeth Cymru, 2017a) yn gosod cyfeiriad Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer y pedair blynedd nesaf ac mae'r Gymraeg yn parhau i fod yn elfen orfodol yn y cwricwlwm i bob dysgwr nes y bydd yn 16 mlwydd oed. Mae Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun gweithredu 2017-21 (Llywodraeth Cymru 2017a) yn nodi'r bwriad i weithredu diwygiadau i'r system addysg yng Nghymru, ac 'mae datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a gwella addysgu a dysgu Cymraeg i bob dysgwr wrth wraidd y diwygiadau hyn' (Llywodraeth Cymru, 2017a).

Ym mhob un o'r cyfnodau allweddol, mae rhaglenni astudio yn nodi'r disgwyliadau o ran yr hyn y dylid ei addysgu i'r dysgwyr.  Yng Nghyfnod Allweddol 2, bydd y dysgwyr yn adeiladu ar y sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gaffaelwyd yn ystod y Cyfnod Sylfaen.  Caiff y cynnydd hwn ei gyflawni trwy gyfrwng rhaglen integredig mewn llafaredd, darllen ac ysgrifennu.  Cyflwynir profiadau a chyfleoedd sy'n creu cydberthynas rhwng yr adrannau Sgiliau ac Ystod a geir yn y rhaglenni astudio.  Bydd y dysgwyr yn datblygu i fod yn siaradwyr hyderus, trefnus a diddorol wrth weithio fel unigolion ac aelodau o grŵp.  Bydd y profiadau a gyflwynir iddynt yn cynnwys cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau drama a chwarae rôl.  Byddant yn datblygu i fod yn wrandawyr gweithredol ac ymatebol mewn ystod eang o sefyllfaoedd.  Drwy gydol y cyfnod allweddol, byddant yn cael profiad o ystod gynyddol eang o destunau ymestynnol a hynny ar gyfer mwynhad a datblygu gwybodaeth, er mwyn iddynt ddatblygu'n ddarllenwyr rhugl ac effeithiol.  Byddant yn datblygu i fod yn ysgrifenwyr cymwys sy'n ysgrifennu'n glir a chydlynus mewn ystod o ffurfiau ac at ystod o ddibenion.  Byddant yn meithrin dealltwriaeth gynyddol o'r angen i addasu'u hiaith i gyd-fynd â phwrpas a chynulleidfa.  Byddant yn dangos cywirdeb cynyddol wrth weithio, ac yn ystyried a gwerthuso eu cyraeddiadau eu hunain a chyraeddiadau pobl eraill.

Yng Nghyfnod Allweddol 3, bydd y dysgwyr yn adeiladu ar y sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gaffaelwyd yng Nghyfnod Allweddol 2.  Caiff y cynnydd hwn ei gyflawni trwy gyfrwng rhaglen integredig mewn llafaredd, darllen ac ysgrifennu.  Cyflwynir profiadau a chyfleoedd sy'n creu cydberthynas rhwng yr adrannau Sgiliau ac Ystod a geir yn y rhaglenni astudio.  Bydd gweithgareddau llafar yn sicrhau bod gallu'r dysgwyr wrth wrando, gwylio a siarad yn cael ei ddatblygu a'i ymestyn.  Bydd y profiadau a gyflwynir iddynt yn cynnwys cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau drama a chwarae rôl.  Byddant yn darllen yn eang er mwynhad a diddordeb gan ddatblygu barn bersonol glir a deallus am yr hyn y byddant yn ei ddarllen.  Byddant yn ymateb i gynnwys ac arddull testunau gan drafod detholiad amrywiol o destunau llenyddol, testunau gwybodaeth a thestunau o'r cyfryngau.  Bydd y dysgwyr yn ysgrifennu gan ddefnyddio ystod o ffurfiau ac arddulliau.  Byddant yn addasu'u hiaith i gyd-fynd â phwrpas a chynulleidfa ac yn defnyddio lefel briodol o ffurfioldeb.  Byddant yn dangos cywirdeb cynyddol wrth weithio, ac yn ystyried a gwerthuso eu cyraeddiadau eu hunain a chyraeddiadau pobl eraill.

Mae adroddiad yr Athro Donaldson (2015), Dyfodol Llwyddiannus, yn argymell y dylai'r Gymraeg barhau'n orfodol hyd at 16 oed ac y dylai ysgolion ganolbwyntio o'r newydd ar ddysgu Cymraeg yn bennaf fel ffordd o gyfathrebu, yn enwedig cyfathrebu a deall yr iaith lafar.

# Prif ganfyddiadau

## Safonau

1 Mae safonau Cymraeg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn yr ysgolion cynradd a llawer o ddisgyblion yn yr ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r adolygiad hwn yn dda. Mae hyn hefyd yn wir, at ei gilydd, am yr ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog a arolygwyd yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Maent yn siarad, yn darllen ac yn ysgrifennu'n dda yn Gymraeg, ac mae llawer ohonynt yn defnyddio'u medrau iaith yn hyderus mewn gwahanol gyd-destunau ar draws y cwricwlwm.

2 Mae bron pob disgybl yn gwrando'n astud ar eu hathrawon. Mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n ddeallus a chyda diddordeb ar eu cyfoedion yn ogystal ac yn datblygu medrau trafod gwerthfawr wrth gydweithio mewn parau neu grwpiau. Mae llawer yn siarad Cymraeg yn hyderus a rhugl ac mae eu hiaith lafar, ar y cyfan, yn gywir a naturiol. Mynegant eu hunain yn glir gan fabwysiadu'r cywair iaith priodol fel arfer. Maent yn mynegi barn yn hyderus ac yn ymhelaethu gan roi rhesymau dilys dros eu safbwyntiau.

3 Mae gan lawer o ddisgyblion y gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Serch hynny, nid yw ychydig o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llafar hyd eithaf eu gallu. Maent yn amharod i gymryd rhan mewn gwaith trafod ac nid ydynt yn awyddus i gyfrannu'n gyhoeddus ar lafar. Nid yw ychydig o ddisgyblion ysgol gynradd na'r mwyafrif o ddisgyblion ysgol uwchradd yr ymwelwyd â nhw yn dewis defnyddio'r iaith yn naturiol mewn sefyllfaoedd cymdeithasol.

4 Fel arfer, mae safonau llafaredd cadarn yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd cyflym o ran eu medrau darllen ac ysgrifennu yn ogystal. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn hyderus, yn rhugl a chyda mynegiant priodol. Maent yn deall ac yn adnabod nodweddion ystod o destunau gwahanol o ran iaith, strwythur, thema a chyflwyniad. Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 3 yn ymateb yn frwd i destunau ffeithiol a llenyddol ac yn datblygu ystod eang o uwch-fedrau darllen cadarn.

5 Mae llawer o ddisgyblion yn yr ysgolion cynradd yn ysgrifennu'n ystyrlon mewn amrywiaeth eang o ffurfiau estynedig gan addasu arddull a chynnwys eu gwaith at wahanol ddibenion a chynulleidfaoedd. Mae strwythur y frawddeg yn gywir ar y cyfan ac mae'r rhan fwyaf yn trefnu eu gwaith yn baragraffau yn briodol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 3, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu graenus a chadarn. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn defnyddio cystrawen gynhenid Gymraeg yn bwrpasol ac mae ganddynt afael ddiogel ar sillafu ac atalnodi ynghyd â geirfa dechnegol effeithiol.

6 Mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud camgymeriadau iaith sylfaenol. Mae gwaith y disgyblion hyn yn frith o wallau cyffredin, er enghraifft camsillafu, diffyg treiglo a chamdreiglo yn dilyn y fannod a chamddefnyddio cenedl enwau a chystrawennau sylfaenol. Yn aml, mae'r gwallau cyffredin hyn yn digwydd yng ngwaith ysgrifenedig y disgyblion am nad ydynt yn llwyddo i'w hadnabod yn eu hiaith lafar.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

7 Yn y rhan fwyaf o ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r adolygiad hwn mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn dda ac mae'n rhagorol mewn lleiafrif ohonynt. Mae hyn hefyd yn wir am lawer o'r ysgolion a arolygwyd yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Mae safon addysgu'r Gymraeg o leiaf yn dda yn y rhan fwyaf o ysgolion. Mae'r addysgu yn cynnwys nodweddion rhagorol mewn lleiafrif o wersi.

8 Mae'r ysgolion llwyddiannus yn cynllunio'n fanwl ac yn effeithiol ar gyfer datblygu medrau llafar, darllen ac ysgrifennu eu disgyblion gan sicrhau rhyngberthynas briodol rhyngddynt. Rhoddir sylw dyledus i elfennau o lythrennedd a chywirdeb iaith. Cyfranna hyn yn dda at ddatblygu medrau y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mewn ychydig o ysgolion ni roddir digon o bwyslais ar ddatblygu medrau llafaredd disgyblion a chaiff hyn effaith andwyol ar ddatblygiad y medrau iaith eraill.

9 Mae gan y canolfannau iaith yr ymwelwyd â nhw yng Ngwynedd drefniadau effeithiol iawn ar gyfer disgyblion sy'n ymuno ag ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog heb fawr ddim cymhwysedd blaenorol yn y Gymraeg. Maent yn cynnig cyfleoedd i garfan newydd o ddisgyblion ddatblygu eu medrau yn y Gymraeg ac yn darparu sylfaen ieithyddol gadarn iddynt fedru cyfranogi'n llawn yn eu haddysg ddwyieithog a manteisio ar y profiadau a gynigir. Nid oes trefniadau cystal yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol eraill.

10 Mae'r rhan fwyaf o athrawon Cymraeg yn arddangos llawer o nodweddion cryf. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn fodelau iaith da ac maent yn rhoi pwyslais priodol ar fodelu iaith gywir sydd yn berthnasol i'w themâu. Mae ychydig o athrawon, a lleiafrif o gynorthwywyr addysgu yn cyflwyno patrymau ieithyddol anghywir i'w disgyblion yn achlysurol, er enghraifft, cenedl enwau, treigladau a chystrawennau cyffredin. Yn aml, mae hyn yn cael effaith andwyol ar ddatblygiad iaith disgyblion.

11 Mae'r cwrs TGAU Cymraeg iaith diwygiedig wedi dylanwadu'n gryf ar ddulliau addysgu yng nghyfnod allweddol 3 dros y ddwy flynedd diwethaf. Mae'r cynlluniau gwaith diwygiedig yn rhoi pwyslais priodol ar annog annibyniaeth ymhlith y disgyblion er mwyn datblygu eu medrau rhesymu yn effeithiol. Mae llawer o'r adrannau yn darparu gweithgareddau blaengar sydd yn paratoi disgyblion ar gyfer yr arholiad TGAU llenyddiaeth Gymraeg yn gynt nag yn y gorffennol.

12 Mae'r rhan fwyaf o athrawon ac adrannau Cymraeg yn asesu gwaith eu disgyblion yn drylwyr ac yn y rhan fwyaf o achosion maent yn dadansoddi cryfderau a meysydd i'w gwella yn ddefnyddiol. Mae'r adborth i waith disgyblion, ar lafar ac yn ysgrifenedig, fel arfer yn cyfeirio'n briodol at ddatblygu eu medrau iaith. Mewn ychydig o achosion, nid yw sylwadau athrawon yn ddigon penodol. Nid ydynt yn cynorthwyo'r disgyblion i wella eu gwaith eu hunain ac nid ydynt felly yn cael effaith gadarnhaol ar godi safonau.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

13 Mae gan y rhan fwyaf o benaethiaid ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion pob oed yr ymwelwyd â nhw weledigaeth glir ar gyfer y Gymraeg. Craidd y weledigaeth hon yw bod pob disgybl yn gwneud y cynnydd gorau posib wrth ddatblygu eu medrau

yn y Gymraeg ac yn meithrin ymdeimlad cadarn o Gymreictod.  Mae safonau yn y Gymraeg a hybu Cymreictod eu disgyblion yn flaenoriaeth yng nghynlluniau gwella'r mwyafrif o ysgolion.

14 Mae gan yr arweinwyr gorau ddisgwyliadau uchel ohonynt eu hunain, eu staff a'u disgyblion ac maent yn cynnal ffocws parhaus ar sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol. Maent yn herio ac yn cefnogi eu cydweithwyr ac yn darparu arweiniad i'r ysgol gyfan ar ddisgwyliadau mewn gwersi.

15 Mae prosesau asesu cyson a manwl wedi eu sefydlu mewn llawer o ysgolion sydd yn sicrhau bod ganddynt ddarlun cywir o safonau yn y Gymraeg.  Mae'r ysgolion hyn yn dadansoddi cyrhaeddiad a chyflawniad eu disgyblion yn drylwyr.

16 Ar sail y gweithdrefnau monitro a hunanarfarnu, mae llawer o ysgolion yn cynllunio'n strategol a bwriadus er mwyn codi safonau yn y Gymraeg.  Mae cynlluniau gwella'r ysgolion hyn yn cyfleu'n glir ddyheadau arweinwyr i gyflwyno cymaint o brofiadau amrywiol a chyfoethog â phosib i'w disgyblion trwy gyfrwng y Gymraeg.  Yn yr achosion gorau mae cynlluniau gwella'r ysgol gyfan a maes cwricwlwm y Gymraeg yn adlewyrchu ei gilydd i raddau helaeth iawn.

17 Mae'r mwyafrif o ysgolion yn elwa ar drefniadau dysgu proffesiynol buddiol er mwyn cryfhau ymhellach y ddarpariaeth Gymraeg.  Yn yr achosion hyn, mae strwythurau sydd yn caniatáu cydweithio a rhannu arbenigedd yn cael effaith gadarnhaol ar safonau addysgu ac ar gyflawniad disgyblion.

18 Mae llawer o arweinwyr wedi sefydlu diwylliant o ddatblygiad proffesiynol parhaus yn eu hysgolion.  Maent yn deall bod yr ysgol gyfan yn gyfrifol am gynnydd eu disgyblion ac yn mynnu bod pob aelod o staff, gan gynnwys cynorthwywyr addysgu, yn cyfrannu at gynlluniau gwella.

19 Mae'r rhan fwyaf o adrannau Cymraeg uwchradd yn elwa ar ystod o bartneriaethau rhanbarthol a chenedlaethol buddiol er mwyn rhannu'r datblygiadau diweddaraf a'r arferion gorau o ran dysgu ac addysgu'r Gymraeg.

20 Mae gan y mwyafrif o ysgolion drefniadau pontio priodol rhwng cyfnodau allweddol 2 a 3.  Fodd bynnag, nid yw trefniadau pontio lleiafrif o ysgolion yn ddigon effeithiol. Yn yr achosion hyn prin yw'r cydweithio cwricwlaidd rhwng ysgolion er mwyn dylanwadu'n gynhyrchiol ar arferion yn y naill ysgol a'r llall.

21 Nid yw digon o awdurdodau lleol yn cynllunio'n strategol er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cael y cyfle i ddatblygu'u medrau Cymraeg yn y ffordd fwyaf effeithiol.

# Argymhellion

**Dylai ysgolion:**

A1 Ganolbwyntio ar ddatblygu medrau llafar disgyblion fel sail i ddatblygu eu medrau eraill, yn enwedig ysgrifennu

A2 Cyflwyno strategaethau i helpu disgyblion ddileu'r gwallau iaith cyffredin a wneir gan leiafrif o ddisgyblion ar lafar ac yn ysgrifenedig

A3 Sicrhau bod y profiadau a ddarperir i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 3 yn adeiladu'n systematig ar y ddarpariaeth yng nghyfnod allweddol 2

A4 Darparu hyfforddiant er mwyn gloywi iaith athrawon a chynorthwywyr addysgu

A5 Cynllunio'n fwriadus i gynyddu awydd a hyder disgyblion ysgolion uwchradd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol

**Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:**

A6 Sicrhau cefnogaeth a chynhaliaeth arbenigol i gynorthwyo ysgolion i ddatblygu medrau iaith disgyblion

A7 Sicrhau darpariaeth effeithiol i ddisgyblion sydd yn dymuno trosglwyddo o addysg cyfrwng Saesneg i addysg cyfrwng Cymraeg yn ystod cyfnodau allweddol 2 a 3

A8 Sicrhau bod disgyblion sydd wedi cael eu hasesu mewn Cymraeg ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn parhau i ddatblygu'u medrau yn y dull mwyaf effeithiol yng nghyfnod allweddol 3

## Safonau yn y Gymraeg, gan gynnwys agweddau disgyblion tuag at y Gymraeg

### Cyfnod allweddol 2

22 Ymwelwyd ag ysgolion ar draws Cymru ar gyfer yr adroddiad hwn, ac at ei gilydd, mae safonau Cymraeg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn yr ysgolion cynradd yn dda. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol gynradd mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, yn gwneud cynnydd pwrpasol yn eu medrau llythrennedd Cymraeg ac yn cymhwyso'u medrau llafar, darllen ac ysgrifennu yn hyderus mewn gwahanol gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf yn llwyddo i wneud cynnydd cadarn ac yn adeiladu ar eu dysgu blaenorol yn effeithiol. Mae hyn hefyd yn wir, at ei gilydd, am yr ysgolion a arolygwyd yn ystod y cylch arolygu 2010-2017.

23 Mae gan lawer o'r disgyblion hyn ddisgwyliadau uchel ohonynt eu hunain ac maent yn ymateb yn gadarnhaol i'r disgwyliadau sydd gan yr athrawon ohonynt. Yn yr enghreifftiau gorau, mae'r disgyblion yn gwneud defnydd aeddfed iawn o'u medrau iaith wrth ymateb i'r heriau a osodir.

24 Mae bron pob un o'r disgyblion yn arddangos agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg, ni waeth beth fo cefndir ieithyddol yr ardal lle lleolir yr ysgol na'r disgyblion. Maent yn mwynhau eu gwersi Cymraeg ac yn frwdfrydig ynghylch eu gwaith.

25 Mae'r rhan fwyaf yn cyfathrebu'n effeithiol drwy gyfrwng y Gymraeg, yn y dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol, ac maent yn ymfalchïo yn y cyfleoedd amrywiol a gânt i ddefnyddio'r iaith. Maent yn falch o'u hunaniaeth Gymreig ac yn ymwybodol o fanteision datblygu eu medrau dwyieithog. Ychydig o ddisgyblion yn unig sydd yn cyfathrebu â'i gilydd yn Saesneg yn y dosbarth ac o gwmpas yr ysgol pan nad ydynt dan oruchwyliaeth athro. Nid yw'r disgyblion hyn yn datblygu eu medrau llafaredd hyd eithaf eu gallu trwy ddefnyddio'r Gymraeg yn ddigymell mewn sefyllfaoedd anffurfiol.

26 Mae bron pob disgybl yn gwrando'n astud ar eu hathrawon ac yn llwyddo i weithredu'n effeithiol ar yr hyn y mae disgwyl iddynt ei gyflawni. Mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n barchus ar eu cyfoedion yn ogystal ac yn datblygu medrau trafod gwerthfawr wrth gydweithio mewn parau neu grwpiau.

27 Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu syniadau a chyflwyno gwybodaeth yn gadarn ar lafar. Mae llawer yn siarad Cymraeg yn hyderus a rhugl ac mae eu hiaith, ar y cyfan, yn gywir a naturiol. Mae llawer yn mynegi barn yn hyderus ac yn ymhelaethu gan roi rhesymau dilys dros eu safbwyntiau. Mewn sefyllfaoedd lle nad yw disgyblion yn cael cymaint o gyfleoedd i ymarfer eu hiaith yn anffurfiol ac yn gymdeithasol, mae hyn yn gallu amharu ar lithrigrwydd eu mynegiant.

28 Mae'r safonau llafar a gyflawnir gan lawer o'r disgyblion yn effeithio'n gadarnhaol ar eu gwaith ysgrifenedig. Mae hyn yn arbennig o wir mewn lleiafrif o achosion lle mae iaith lafar disgyblion yn gyfoethog o ran tafodiaith yn ogystal. Mewn ychydig o ysgolion mae safonau llafaredd y disgyblion yn rhagorol.

29 Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn hyderus, yn rhugl a chyda mynegiant priodol. Maent yn deall ac yn adnabod nodweddion ystod o destunau gwahanol o ran iaith, strwythur, thema a chyflwyniad. Mae llawer yn hyderus wrth ddefnyddio termau ieithyddol / gramadegol, er enghraifft berfau, adferfau, cyflythrennu, gwefreiriau, cysyllteiriau ac agoriadau.

30 Yn yr enghreifftiau gorau, mae disgyblion yn datblygu eu huwch-fedrau darllen yn llwyddiannus yng nghyfnod allweddol 2. Er enghraifft, maent yn lleoli a chyfosod gwahanol ffynonellau gwybodaeth am y Rhyfel Byd Cyntaf yn effeithiol ac yna'n rhesymu er mwyn llunio casgliadau am yr hyn ddigwyddodd.

31 Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n ystyrlon mewn amrywiaeth eang o ffurfiau estynedig gan addasu arddull a chynnwys eu gwaith at wahanol ddibenion a chynulleidfaoedd. Mae strwythur y frawddeg yn gadarn ar y cyfan ac mae'r rhan fwyaf yn rhannu eu gwaith yn baragraffau yn briodol. Mae llawer yn defnyddio thesawrws neu eiriadur yn bwrpasol er mwyn cyfoethogi eu hiaith.

32 Mae Ysgol Gymraeg Casnewydd yn defnyddio athroniaeth i blant a strategaethau drama broses fel sail i'w chynllunio. O ganlyniad i ddefnyddio'r strategaethau hyn, mae medrau llafar ac ysgrifennu y rhan fwyaf o ddisgyblion o'r dosbarth meithrin hyd at Flwyddyn 6 yn dda iawn.

**Astudiaeth achos 1: Ysgol Gymraeg Casnewydd**

**Gwybodaeth am yr Ysgol**

Ysgol gynradd benodedig Gymraeg yw Ysgol Gymraeg Casnewydd, wedi ei lleoli yn ardal Ringland o Gasnewydd. Mae'n darparu addysg i ddisgyblion rhwng tair ac 11 oed. Mae 350 o ddisgyblion ar y gofrestr, sy'n cynnwys 50 plentyn oed meithrin. Mae 15 dosbarth yn yr ysgol. Tua 1% o'r disgyblion sy'n dod o gartrefi lle siaredir Cymraeg. Cymraeg yw iaith bob dydd yr ysgol a phrif gyfrwng y dysgu a'r addysgu. Mae 18% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae bron i 20% o ddisgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol.

**Cyd-destun a chefndir yr arfer**

Mae'r ysgol yn defnyddio strategaethau athroniaeth i blant a strategaethau drama broses fel sail i'w chynllunio. Mae hyn yn sbarduno a meithrin disgyblion sydd yn medru meddwl yn feirniadol a thrafod testunau heriol yn aeddfed. Mae'r ysgol yn blaenoriaethu gwaith llafar sydd yn ysgogi'r gwaith ysgrifennu yn effeithiol iawn.

**Disgrifiad o'r gweithgaredd/strategaeth**

Mae'r athrawon yn cynllunio ar gyfer anghenion ei disgyblion gan ddewis sbardun i greu cysylltiad emosiynol. Gall yr ysgogiad hwnnw fod yn llyfr, delwedd symudol neu gerddoriaeth. Mae sesiynau athroniaeth i blant yn sicrhau bod llais y disgybl yn ganolog a bod gan y disgyblion amser i fyfyrio ac i herio ei gilydd o fewn sefyllfa ddiogel.

Mae strategaethau ‘drama broses’ yn cydblethu â’r strategaethau athroniaeth i blant ac yn sail i’r gwaith llafar.  Mae’r disgyblion yn mynd o dan groen cymeriadau neu wrthrychau o fewn testun.  Er enghraifft, defnyddir y strategaeth ddrama ‘darlun sain’ i greu naws ac i uniaethu â chymeriadau trigolion Tryweryn.  O ganlyniad, mae gan y disgyblion ystod eang o brofiadau emosiynol ynghyd â chyfoeth o iaith sydd yn arwain at waith estynedig a chreadigol effeithiol.

**Effaith ar ddarpariaeth a safonau**

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cynhwyso’u medrau llythrennedd ar draws y cwricwlwm yn effeithiol iawn.  Mae’r dull yma o ddefnyddio emosiynau a chaffael ymwybyddiaeth ddofn o destun yn ysgogi ysgrifennu rhagorol yn drawsgwricwlaidd yn y Gymraeg.  Mae’r disgyblion yn aml yn defnyddio eu canfyddiadau dadansoddol i ysgrifennu fel gwrthrych.  Yn y dosbarth derbyn, mae’r plant yn ysgrifennu o safbwynt bwced a rhaw wedi iddynt fod ar drip addysgiadol i lan y môr.  Erbyn Blwyddyn 2 mae’r disgyblion yn datblygu eu medrau i ddisgrifio eu teimladau, er enghraifft drwy ysgrifennu fel cist atgofion Mamgu.  Wrth i’r disgyblion gyrraedd brig yr ysgol ceir tystiolaeth o’r modd y mae'r trafodaethau athronyddol yn dylanwadu ar ddwyster yr ysgrifennu fel gwrthrych.  Er enghraifft, ysgrifennu o safbwynt adeilad yn Syria cyn ac yn ystod y rhyfel, neu’r ysgol yn Aberfan.

33 Mae llawer o ddisgyblion yn deall beth sydd angen ei wneud er mwyn datblygu a gwella eu gwaith.  Maent yn ymateb yn gadarnhaol i adborth athrawon ar lafar ac yn ysgrifenedig, er enghraifft er mwyn ail-ddrafftio elfennau o’u gwaith.

34 Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae dealltwriaeth llawer o ddisgyblion o elfennau gramadegol yn gadarn ac yn cael ei hadlewyrchu yng nghywirdeb eu gwaith ysgrifenedig, er enghraifft y treiglad meddal ar ôl arddodiad a ffurf gryno amser gorffennol y ferf.

35 Mae’r rhan fwyaf yn cymhwyso ac yn cymhathu eu medrau llafar a llythrennedd yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.  Maent yn ymateb yn frwd i strategaethau ysgrifennu estynedig er mwyn cyfoethogi eu hiaith trwy themâu trawsgwricwlaidd, er enghraifft chwedlau’r Mabinogi.

36 Mae’r mwyafrif o ddisgyblion yn meddu ar iaith gywir a chyfoethog, er enghraifft maent yn deall ac yn defnyddio idiomau yn briodol wrth sgwrsio ac ysgrifennu.  Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddisgyblion yn llwyddo i wahaniaethu rhwng iaith ffurfiol ac anffurfiol.  Yn ogystal, caiff bratiaith ddiangen ei hamlygu weithiau yn eu hiaith lafar.

37 Mae lleiafrif o’r disgyblion yn gwneud camgymeriadau iaith sylfaenol ar lafar ac yn ysgrifenedig.  Mae gwaith y disgyblion hyn yn frith o wallau cyffredin, er enghraifft camsillafu, diffyg treiglo a chamdreiglo yn dilyn y fannod a chamddefnyddio cenedl enwau a chystrawennau sylfaenol.

38 Nid yw adnoddau iaith ychydig o ddisgyblion yn cyfateb bob tro i aeddfedrwydd eu syniadau ac nid yw hyn yn caniatáu iddynt fynegi eu hunain ar lafar nac yn ysgrifenedig yn glir yn y Gymraeg.  Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cyflawni’n dda o dan arweiniad cynorthwywyr addysgu.

39 Mae llawer o ddisgyblion uwch eu gallu yn gwneud cynnydd da er bod hyn yn amrywio dros dreigl amser. Fodd bynnag, mae tystiolaeth o ddarparu tasgau heriol sy'n darparu'n gywir ar gyfer anghenion y disgyblion hyn yn brin ac o ganlyniad nid yw ychydig o'r disgyblion mwyaf galluog yn cyflawni hyd orau eu gallu.

## Cyfnod allweddol 3

40 Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau eu gwersi Cymraeg, yn awyddus iawn i ddysgu ac yn arddangos lefelau uchel o gymhelliant a diddordeb amlwg yn eu gwaith. Er enghraifft, mae disgyblion yn gynyddol hyderus i arbrofi gyda thechnoleg newydd er mwyn cyflwyno cerddi ar lafar. Mae'r rhan fwyaf yn arddangos agweddau cadarnhaol iawn tuag at y Gymraeg gydag ymdeimlad cryf o falchder o fod yn Gymry.

41 Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 3 yn gwneud cynnydd cadarn ac yn adeiladu ar eu dysgu blaenorol yn effeithiol, er enghraifft wrth lunio eu meini prawf llwyddiant eu hunain ar sail eu hadnabyddiaeth o nodweddion arddull neu ffurfiau ysgrifennu penodol.

42 Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud defnydd effeithiol o'u medrau iaith a llythrennedd mewn gwersi Cymraeg. Er enghraifft, mae llawer yn datblygu'n ysgrifenwyr estynedig ac maent yn arddangos treiddgarwch wrth ddadansoddi technegau arddull mewn cerddi fel *Gail fu farw* gan Nesta Wyn Jones ac *Er Cof am Kelly* gan Menna Elfyn. Mae llawer o ddisgyblion yn cyfathrebu'n hyderus ar lafar. Maent yn cyflwyno ymatebion llafar estynedig ac yn rhesymu'n ystyrlon. Mae cynnydd o ran cywirdeb yr iaith lafar ac ysgrifenedig yn nodwedd amlwg.

43 Mae disgyblion Ysgol Maes y Gwendraeth yn datblygu medrau cryf yn y Gymraeg, er enghraifft wrth weithio'n annibynnol ar thema sydd o ddiddordeb penodol iddynt ym Mlwyddyn 8.

**Astudiaeth achos 2: Ysgol Maes y Gwendraeth**

**Gwybodaeth am yr ysgol**

Ysgol uwchradd ddynodedig Gymraeg yw Ysgol Maes Y Gwendraeth ar gyfer disgyblion 11-18 oed. Mae wedi ei lleoli yng Nghefneithin, Sir Gaerfyrddin. Mae 840 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda bron i 160 yn y chweched dosbarth. Mae 11% o ddisgyblion yn ysgol yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae 20% o ddisgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol. Mae 63% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg yn y cartref.

**Cyd-destun a chefndir yr arfer**

Mae disgyblion Blwyddyn 8 Ysgol Maes y Gwendraeth yn datblygu eu medrau Cymraeg wrth astudio'r thema Chwaraeon a Champau yn ystod Tymor yr Hydref. Gosodir her i bob dosbarth i gwblhau cywaith dosbarth o fewn chwe gwers (sef chwech awr) yn seiliedig ar gystadleuaeth neu bencampwriaeth chwaraeon o ddewis y disgyblion. Nod y dasg yw hyrwyddo medrau'r disgyblion yn y Gymraeg, gan ganiatáu i'r disgyblion weithio'n annibynnol a chymryd cyfrifoldeb am eu dysgu

eu hunain.  Rôl yr athro yw hwyluso’r dysgu a chynnig arweiniad a chefnogaeth yn ystod y gwersi.

**Disgrifiad o’r gweithgaredd/strategaeth**

Wrth gyflwyno’r her mae’r adran Gymraeg yn amlinellu rôl y disgyblion fel unigolion, parau, grwpiau ac fel dosbarth.  Rhoddir syniadau am y math o dasgau y gellir eu cynnwys yn y cywaith, ond rhoddir pwyslais ar hyrwyddo creadigrwydd y disgyblion fel eu bod yn meddwl am eu syniadau eu hunain.  Mae disgwyl i bob disgybl gyflawni un dasg estynedig i’w hasesu ar ddiwedd yr uned.  Rhaid i’r gwaith gael ei gyflawni o fewn ffiniau amser pendant.

Yr athro sy’n llywio rhan gyntaf y gwaith ac mae’r dosbarth yn penderfynu ar destun y cywaith, er enghraifft Y Gemau Olympaidd neu Gwpan Rygbi’r Byd.  Caiff y disgyblion gyfnod i gynllunio fel grŵp er mwyn pledu syniadau cyn i’r dosbarth benderfynu ar gyfrifoldebau penodol.  Mae gweddill y gwersi yn cael eu neilltuo i ddisgyblion gyflawni gwaith ymchwil gan ddefnyddio adnoddau’r ysgol, fel y llyfrgell neu gyfarpar TGCh.  Maent yn ysgrifennu ac yn gwella eu gwaith cyn ei olygu’n derfynol.  Maent hefyd yn gyfrifol am gysodi’r gwaith terfynol i’w gyflwyno.

Yn ystod y gwersi hyn, mae’r athrawon yn cymryd cam yn ôl yn fwriadol.  Mae hyn yn caniatáu i’r disgyblion gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain, a datblygu eu medrau meddwl, gweithio gydag eraill, gwella eu dysgu a’u perfformiad a datrys problemau.  Mae’r disgyblion yn gweithio ar dasgau sydd o ddiddordeb iddynt ac ar lefel sy’n briodol i’w gallu.  Fodd bynnag mae athrawon yn monitro’r gwaith er mwyn sicrhau bod y tasgau’n ddigon heriol.  Mae’r tasgau yn cynnwys ystod eang o ffurfiau ysgrifennu, er enghraifft gwybodaeth ffeithiol ar bencampwr unigol, tasg berswâd er mwyn annog ymwelwyr i wlad y gystadleuaeth ac ymson o safbwynt cefnogwr.

**Effaith ar ddarpariaeth a safonau**

Wrth gyflawni’r uned hon o waith mae’r disgyblion yn datblygu ystod o fedrau pynciol ynghyd â medrau trawsgwricwlaidd yn llwyddiannus.

Wrth ddarllen, maent yn dewis ac yn dethol ffynonellau addas, gan gynnwys ffynonellau ar y rhyngrwyd.  Maent yn gwella eu llythrennedd deuol, gan fod y ffynonellau yn aml trwy gyfrwng y Saesneg.  Maent yn cywain gwybodaeth, er enghraifft cip-ddarllen gwefan er mwyn penderfynu ar ei defnyddioldeb, a llithr-ddarllen tudalen o’r we er mwyn canfod ffeithiau penodol.

Mae pob disgybl yn gwella eu dealltwriaeth o nodweddion gwahanol ffurfiau ysgrifennu, ac yn penderfynu ar y ffurfiau mwyaf priodol ar gyfer eu tasg.  Maent hefyd yn defnyddio strategaethau er mwyn gwella eu gwaith eu hunain a gwaith eraill, gan ddysgu sut i ddefnyddio systemau gwirio cyfrifiadurol a golygu ac ailddrafftio gwaith er mwyn gwella cywirdeb gramadegol.

Maent yn datblygu eu medrau ehangach fel eu gallu i weithio’n annibynnol, i ddatrys problemau, i ddangos creadigrwydd, i fod yn flaengar, gweithio o fewn terfynau amser a defnyddio TGCh yn hyderus.  Mae’r disgyblion yn llwyddo i werthuso eu gwaith yn llwyddiannus trwy fod yn ymwybodol o’r hyn maent wedi ei ddysgu a pha feysydd y gellid eu gwella.

Ar ôl cwblhau'r dasg bydd y disgyblion yn myfyrio ar y gwaith ar lafar ac yn ysgrifenedig. Maent yn ystyried yr hyn maent wedi ei gyflawni, yn adnabod y strategaethau dysgu y maent wedi'u defnyddio a'u datblygu, ac yn gwerthuso eu cyfraniad unigol i'r dasg. Maent hefyd yn hunanasesu eu gallu i gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain yn ogystal â mynegi barn ar eu mwynhad. Mae ymateb bron pob disgybl yn gadarnhaol ac maent yn cyfeirio at y dasg fel un a roddodd fwynhad iddynt. Mae'r disgyblion yn mwynhau'r cyfle i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain. Maent hefyd yn onest wrth ymateb i'r hyn a ddysgwyd o'r profiad. Mae rhai yn nodi pwysigrwydd defnyddio cryfderau unigolion gwahanol yn y dosbarth er mwyn gallu gwirio a gwella eu gwaith, neu arbrofi drwy ddefnyddio TGCh yn fwy effeithiol.

44 Mae bron pob disgybl yn gwrando'n astud ar yr athrawon ac yn barchus wrth wrando ar safbwyntiau ei gilydd. Mae llawer yn cydweithio'n effeithiol mewn parau a grwpiau er mwyn ehangu ar eu dealltwriaeth wrth drafod pynciau amrywiol gan fabwysiadu swyddogaethau gwahanol aelodau o grŵp yn llwyddiannus.

45 Mae gan lawer o ddisgyblion afael ddiogel ar eirfa a chystrawen gywir a mynegant eu hunain yn glir ar lafar. Mae'r mwyafrif yn amlygu lefel uchel o gywirdeb, geirfa gyfoethog ynghyd ag elfennau naturiol o dafodiaith wrth siarad yn estynedig yn gyhoeddus. Mae ychydig o ddisgyblion uwch eu gallu yn siarad yn aeddfed iawn. Mae eu hiaith lafar yn caniatáu iddynt drafod amrediad eang o bynciau mewn modd treiddgar a deallus.

46 Mae ychydig o ddisgyblion yn amharod i gymryd rhan mewn gwaith pâr / grŵp ac nid ydynt yn awyddus i gyfrannu'n gyhoeddus ar lafar. Mae'r rhesymau am hyn yn rhai amrywiol a chymhleth, o ddiffyg hyder i ddiffyg cymhelliant gan gynnwys diffyg arweiniad ar adegau yn ogystal. Nid yw'r disgyblion hyn yn ymestyn eu medrau llafar i'r graddau y gallent ac o ganlyniad nid ydynt yn gwneud y cynnydd disgwyliedig.

47 Mae gan lawer o ddisgyblion y gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Serch hynny, nid yw'r mwyafrif ohonynt yn dewis defnyddio'r iaith yn naturiol mewn sefyllfaoedd cymdeithasol. Mae hyn yn her i'r rhan fwyaf o ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â nhw.

48 Mae llawer o ddisgyblion, yn ymateb yn frwd i destunau ffeithiol a llenyddol ac yn datblygu ystod eang o fedrau darllen cadarn. Gallant gasglu, dehongli a dadansoddi gwybodaeth o ystod o ffynonellau a defnyddio tystiolaeth er mwyn cefnogi eu barn, er enghraifft testunau yn ymwneud ag effaith rhyfel ar fywydau plant. Mae hyn yn ei dro yn arwain at ysgrifennu estynedig llwyddiannus.

49 Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn meddu ar uwch-fedrau darllen effeithiol, er enghraifft medrant ddarllen rhwng y llinellau er mwyn canfod y negeseuon sydd ymhlyg mewn testun. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion cyfnod allweddol 3, yn dadansoddi a gwerthfawrogi cynnwys ac arddull cerddi anghyfarwydd yn effeithiol iawn.

50 Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu graenus a chadarn. Maent yn trefnu eu gwaith yn rhesymegol ac yn paragraffu'n gywir. Maent yn ymateb yn frwd i'r anogaeth i ysgrifennu mewn amrywiaeth o arddulliau, at wahanol ddibenion ac i gynulleidfaoedd gwahanol.

51 Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn defnyddio cystrawen naturiol Gymraeg yn bwrpasol ac mae ganddynt afael ddiogel ar sillafu ac atalnodi safonol ynghyd â geirfa dechnegol effeithiol.  Maent yn datblygu eu medrau trwy roi sylw i gywirdeb iaith, er enghraifft, ffurfiau cryno ac amhersonol y ferf.

52 Mae gwallau cyffredin yn nodweddu gwaith lleiafrif o ddisgyblion am nad ydynt yn ymwybodol o'r gwallau hyn yn eu hiaith lafar.  Maent yn gwneud yr un camgymeriadau yn eu gwaith ysgrifenedig, er enghraifft trwy ddewis geirfa anghywir fel poblogaidd / poblogaeth, gwario / treulio amser, ac nid ydynt yn treiglo'n feddal ar ôl arddodiaid.

53 Mae ychydig o ddisgyblion uwch eu gallu yn ysgrifennu darnau estynedig sydd yn gafael yn nychymyg y darllenydd.  Mae gan y disgyblion hyn afael gadarn iawn ar gywair naturiol y Gymraeg ac mae eu gwaith yn cynnwys llawer o enghreifftiau o ysgrifennu grymus ac idiomatig.  Mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn rheolaidd i adborth athrawon er mwyn gwella eu gwaith, er enghraifft trwy gywiro gwallau cyffredin a/neu ddatblygu eu syniadau gwreiddiol.

# Addysgu a phrofiadau dysgu

## Cyfnod allweddol 2

### Darpariaeth

54 Mae gan bron pob un o’r ysgolion cynradd, ac ysgolion gydol oes yr ymwelwyd â nhw amrediad o strategaethau effeithiol i sicrhau mai’r Gymraeg yw eu hiaith bob dydd. Maent yn hyrwyddo ethos Gymraeg a Chymreig cryf ac mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio’r Gymraeg yn hyderus mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol yn yr ysgol.

55 Mae’r rhan fwyaf o ysgolion wedi mabwysiadu cynlluniau, gan gynnwys y Siarter Iaith er enghraifft, er mwyn annog disgyblion i siarad Cymraeg, dysgu am Gymru a dyfnhau eu hymwybyddiaeth a’u balchder o’u Cymreictod.  Mae’r athrawon ym mron pob un ysgol yn darparu cyfleoedd niferus i ddisgyblion siarad Cymraeg mewn gwersi ac ar adegau eraill.  Er enghraifft, mae un ysgol yn annog eu disgyblion i danio’r ‘swits’ iaith wrth gyrraedd yn y bore.  Canlyniad hyn yw eu bod, fel arfer, yn parhau i siarad Cymraeg trwy’r dydd.

56 Mae’r ddarpariaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn dda yn y rhan fwyaf o ysgolion ac yn rhagorol mewn lleiafrif ohonynt.  Mae’r nodweddion rhagorol hyn yn cynnwys:

- Mae trefniadaeth y cwricwlwm yn galluogi disgyblion i wneud a chynnal cynnydd da yn y Gymraeg
- Mae’r ysgolion yn cynllunio’n fanwl ar gyfer sicrhau datblygiad a pharhad ym medrau Cymraeg eu disgyblion
- Mae’r gweithgareddau dysgu yn atgyfnerthu medrau iaith y disgyblion
- Mae ansawdd yr addysgu o leiaf yn dda ar draws yr ysgol; mae’r athrawon yn fodelau iaith da a rhoddir digon o bwyslais ar ddatblygu medrau llafaredd disgyblion
- Mae’r disgyblion yn cael cyfleoedd digonol i ddatblygu eu defnydd o’r Gymraeg mewn ystod o sefyllfaoedd y tu allan i wersi Cymraeg

57 Mae ychydig o ysgolion yn defnyddio cynlluniau cwricwlaidd a baratowyd gan wasanaeth cefnogi ysgolion eu rhanbarth lleol.  Yn amlach na pheidio mae ysgolion yn addasu’r rhain neu’n paratoi cynlluniau gwaith sydd yn fwy perthnasol i’r ysgol.  Mae’r rhan fwyaf o safon uchel ac yn darparu canllaw defnyddiol i’r athrawon o ran yr ystod a’r medrau sydd angen iddynt eu datblygu fesul blwyddyn.  Mae gofynion y fframwaith llythrennedd wedi eu mapio’n drylwyr ym mron pob ysgol yr ymwelwyd â hi.

58 Mae ychydig o ysgolion yn rhy ddibynnol ar gynlluniau masnachol o ran eu darpariaeth.  Nid yw’r ysgolion hyn yn ddigon rhagweithiol, arloesol a gwreiddiol wrth fynd ati i godi safonau nac yn ddigon cyfoes eu hapêl er mwyn hybu Cymreictod eu disgyblion.

59 Er mwyn datblygu eu medrau llafar, mae'r athrawon gorau yn sbarduno dychymyg eu disgyblion trwy greu cyd-destunau gafaelgar ar gyfer eu gwersi. Trwy gynllunio profiadau ysgogol fel hyn caiff disgyblion eu harwain i ddefnyddio a datblygu iaith mynegi barn yn naturiol ac yn gynyddol hyderus. Maent yn awyddus i gyfranogi yn y wers a chyfrannu iddi gan fod y cyd-destun o ddiddordeb iddynt.

60 Mae athrawon yn Ysgol Sant Baruc wedi cynllunio tasgau penodol yn dymhorol i bob blwyddyn ysgol er mwyn sicrhau datblygiad mewn medrau llafar disgyblion yng nghyfnod allweddol 2. Yn aml gall hyn olygu gosod y disgyblion mewn cyfyng gyngor moesol dychmygol, er enghraifft, trafod a dod i benderfyniad ynglŷn â phwy ddylai dderbyn calon trwy drawsblaniad.

**Astudiaeth achos 3: Ysgol Sant Baruc**

**Gwybodaeth am yr ysgol**

Ysgol gynradd benodedig Gymraeg yw Ysgol Gymraeg Sant Baruc, wedi ei lleoli yn y Barri, ym Mro Morgannwg. Mae 220 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr. Mae tua 5% o'r disgyblion yn dod o gartrefi lle siaredir Cymraeg fel prif iaith. Mae bron i 10% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Tua 5% o ddisgyblion sydd yn dod o gefndir ethnig lleiafrifol. Mae'r ysgol yn nodi bod 17% o ddisgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol.

**Cyd-destun a chefndir yr arfer**

Mae athrawon yn Ysgol Sant Baruc wedi ymrwymo i ganolbwyntio ar wella medrau llafar disgyblion fel rhan o'r gwersi llythrennedd. Maent wedi cynllunio tasgau penodol yn dymhorol i bob blwyddyn ysgol er mwyn sicrhau datblygiad mewn medrau llafar disgyblion yng nghyfnod allweddol 2.

**Disgrifiad o'r gweithgaredd/strategaeth**

Mae gan gynllun iaith yr ysgol bwyslais clir ar gywirdeb iaith. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ond yn clywed ac yn siarad yr iaith yn yr ysgol. Mae'r athrawon yn modelu iaith o safon uchel ac yn drilio iaith yn ddyddiol yn y dosbarth gydag ymarferion llafar byrion 'Gramadeg Graenus'. Cyflwynir patrwm iaith neu idiom wahanol yn wythnosol i'r ysgol gyfan. Disgwylir i athrawon gywiro iaith y disgyblion a chanmol iaith sydd o safon uchel.

Mae'r athrawon yn cynllunio gweithgareddau llafar yn cynnwys 'llwyfan llafar' sef tasgau cyflwyno gwybodaeth unigol a thasgau trafodaeth grŵp. Wrth i'r athro fodelu iaith mae cardiau trafod, sydd wedi eu gwahaniaethu, yn cynorthwyo disgyblion i gyfathrebu â'i gilydd mewn iaith safonol ynghyd â chyflwyniadau electronig. Mae disgwyliadau uchel yr athro yn cyfrannu at safon llafaredd y disgyblion.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos â'r ysgol uwchradd. Mae'r arweinydd llythrennedd a'r athro Blwyddyn 6 yn cyd-arsylwi gwersi ac yn rhannu arfer dda gyda'r ysgol uwchradd. Mae hyn yn sicrhau bod disgwyliadau'r athrawon cynradd ac uwchradd yn gyson ac yn gymorth gwerthfawr wrth geisio sicrhau trefniadau pontio hwylus rhwng y ddwy ysgol.

Cedwir portffolio er mwyn cymedroli medrau llafar ar draws yr ysgol. Golyga hyn fod staff yr ysgol yn medru monitro datblygiad iaith y disgyblion ynghyd â chraffu ar wallau llafar cyffredin. Y gwallau iaith cyffredin yw sail patrwm iaith yr wythnos.

**Effaith ar ddarpariaeth a safonau**

Mae bron pob disgybl yn cyfathrebu'n hyderus ar amrywiaeth o themâu. Mae bron pob disgybl yn defnyddio amrywiaeth o ymadroddion a phatrymau brawddegol yn hyderus wrth drafod testun. Mae hyder disgyblion wrth gyflwyno gwybodaeth wedi gwella. Yn 2017 cyflawnodd pob disgybl o leiaf y lefel ddisgwyliedig mewn llafaredd gyda llawer yn cyflawni'n uwch na'r disgwyl.

61 Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion strategaethau penodol i ddatblygu medrau darllen eu disgyblion. Er enghraifft, mae Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James, Pontypridd yn gweithredu'r 'Daith Ddarllen Ryfeddol' ac yn sicrhau amrywiaeth o weithgareddau darllen sydd yn cynyddu o ran her ac yn mynnu ymatebion i destunau trwy wahanol ddulliau. Mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn gadarnhaol iawn i'r strategaeth hon, yn enwedig bechgyn a disgyblion uwch eu gallu.

62 Mae strategaethau ysgrifennu estynedig yn cael effaith gadarnhaol ar addysgeg llawer o ysgolion. Canlyniad hyn yw bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n ystyrlon mewn amrywiaeth eang o ffurfiau gan addasu arddull a chynnwys eu gwaith at wahanol ddibenion a chynulleidfaoedd.

63 Mae llawer o'r ysgolion yn darparu arddangosfeydd effeithiol yn y dosbarthiadau sydd yn hyrwyddo'r defnydd o fedrau llythrennedd y disgyblion yn y Gymraeg. Yn yr achosion hyn, caiff disgyblion eu cymell i ddefnyddio geirfa ac ymadroddion yn rheolaidd yn eu gwaith. Maent yn gyfle yn ogystal i dynnu sylw at rai o lenorion enwocaf Cymru gan gynnwys ein llenorion cyfoes. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion, erbyn hyn, yn gwahodd awduron amlwg i'r ysgol er mwyn cyfoethogi profiadau ieithyddol y disgyblion.

## Addysgu ac asesu

64 Mae addysgu'r Gymraeg yng nghyfnod allweddol 2 o leiaf yn dda mewn llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd a nhw. Mae'r addysgu yn cynnwys nodweddion rhagorol mewn lleiafrif o wersi.

65 Yn yr ysgolion lle mae'r addysgu fwyaf llwyddiannus, mae athrawon yn cynllunio'n fanwl ac yn effeithiol ar gyfer datblygu medrau llafar, darllen ac ysgrifennu eu disgyblion gan sicrhau rhyngberthynas priodol rhyngddynt. Arweinia hyn at ddatblygu medrau cadarn y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mewn ychydig o ysgolion nid oes ffocws digon penodol ar ymarfer medrau llafar disgyblion ac ar yr effaith fuddiol a gaiff hyn ar gywirdeb eu hysgrifennu.

66 Yn y gwersi gorau, mae gan yr athrawon berthynas waith gynhyrchiol iawn gyda'u disgyblion. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel iawn o'r disgyblion ac maent yn eu hannog yn gyson i ddatblygu dycnwch a dyfalbarhad wrth ymgymryd â thasgau ymestynnol. Maent yn cynllunio'r gwersi yn ofalus er mwyn cynnwys heriau sydd yn darparu ar gyfer anghenion yr ystod lawn o ddisgyblion. Mae cwestiynu pen-agored

a threiddgar yn nodwedd nodedig o'r gwersi hyn pan gaiff y disgyblion eu hannog i feddwl o ddifri drostynt eu hunain. Pan fo'r cynllunio yn canolbwyntio ar adeiladu ar brofiadau dysgu blaenorol yn systematig, mae gan ddisgyblion berchnogaeth ar eu dysgu. Maent yn egluro sut maent yn cyfrannu at themâu a sut maent yn dod i gytundeb gyda'u hathrawon ynglŷn â pha agweddau y byddant yn eu hastudio nesaf. Mae'r cyd-gynllunio ar gyfer datblygu annibyniaeth ym mhen uchaf cyfnod allweddol 2 yn rhagorol mewn ychydig o'r ysgolion yr ymwelwyd a hwy. Mewn ychydig o ysgolion nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion arwain a chyfrannu at eu dysgu eu hunain neu ddewis trywyddau dysgu sydd o ddiddordeb penodol iddynt. Yn yr achosion hyn nid yw'r addysgu yn datblygu digon ar annibyniaeth y disgyblion. O ganlyniad, nid yw disgyblion uwch eu gallu, yn benodol, yn cael eu hymestyn fel y dylent.

67 Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn fodelau iaith effeithiol ac maent yn rhoi pwyslais priodol ar fodelu iaith gywir sydd yn berthnasol i'w themâu. Er enghraifft, maent yn tynnu sylw yn gelfydd at ffurfiau berfol cywir, cywiro gwallau treiglo a bwydo geirfa heb amharu ar lif y wers. Mae ychydig o athrawon, a lleiafrif o gynorthwywyr addysgu yn cyflwyno patrymau ieithyddol anghywir i'w disgyblion yn achlysurol, er enghraifft, cenedl enwau, treigladau a chystrawennau cyffredin. Mae ychydig iawn o athrawon yn rhy barod i dderbyn geirfa Saesneg mewn gwersi Cymraeg ac nid ydynt yn ddigon blaengar wrth gyfoethogi iaith eu disgyblion.

68 Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu adborth llafar neu ysgrifenedig rheolaidd a buddiol i'w disgyblion. Mae hyn yn caniatáu i ddisgyblion wybod beth maent yn ei wneud yn dda a beth sydd angen ei wneud i wella eu gwaith, o ran cynnwys a mynegiant. Mewn ychydig o achosion, nid yw sylwadau athrawon yn ddigon penodol. O ganlyniad, nid ydynt yn gyfrwng effeithiol i'r disgyblion wella eu gwaith eu hunain ac nid ydynt felly yn cael effaith gadarnhaol ar godi safonau, er enghraifft i wella atalnodi a sillafu dros gyfnod.

69 Mae llawer o athrawon yn holi cwestiynau treiddgar yn ystod eu gwersi er mwyn annog disgyblion i fyfyrio ar eu gwaith yn unigol neu mewn parau neu grwpiau. Mae'r strategaeth hon yn arbennig o effeithiol pan gynllunnir seibiannau rheolaidd i dderbyn ymatebion y disgyblion a mesur y cynnydd yn eu dealltwriaeth.

70 Mae athrawon yn y rhan fwyaf o ysgolion yn gwneud defnydd effeithiol o feini prawf llwyddiant fel dull o annog disgyblion i wella eu gwaith. Mae lleiafrif o ysgolion yn gofyn i'w disgyblion lunio eu meini prawf llwyddiant eu hunain. Yn yr enghreifftiau gorau mae hon yn elfen sydd yn cyfrannu'n ddefnyddiol at ddatblygu dysgwyr annibynnol llwyddiannus.

71 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn defnyddio codau marcio syml sy'n rhwydd i'w gweithredu ac yn ddealladwy i ddisgyblion. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn llwyddo i wella eu gwaith eu hunain. Mewn ychydig o achosion, mae disgyblion yn cam-gywiro eu gwallau iaith ac nid yw hyn yn cael ei gywiro ymhellach gan yr athro. Canlyniad hyn yw bod yr un camgymeriadau yn digwydd mewn gwaith dilynol.

72 Mae gan bron pob ysgol weithdrefnau effeithiol sydd yn eu galluogi i olrhain cynnydd eu disgyblion yn fanwl iawn. Maent yn llwyddo i adnabod meysydd penodol i'w gwella yn eu gwaith ac maent yn darparu ar eu cyfer yn ôl yr angen. Mae'r deilliannau yn aml yn hysbysu'r meysydd i'w gwella yng nghynlluniau gwella'r ysgol.

73 Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion adnabyddiaeth dda a gwybodaeth ddibynadwy a dilys o gyrhaeddiad disgyblion. Maent yn gosod targedau heriol iddynt ac yn cynllunio'n ofalus er mwyn ceisio sicrhau bod unigolion a grwpiau yn cyflawni'n unol â'u gallu.

## Cyfnod allweddol 3

### Darpariaeth

74 Mae'r rhan fwyaf o adrannau Cymraeg yn yr ysgolion uwchradd yn gosod seiliau cadarn i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion. O ganlyniad, mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd pwrpasol yn eu medrau pynciol a llythrennedd Cymraeg. Maent yn hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg yn ffurfiol ar draws y cwricwlwm ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol yn ogystal.

75 Mae'r rhan fwyaf o athrawon Cymraeg yn yr ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â nhw yn ymroddedig i'w gwaith ac maent yn gweithio'n frwdfrydig dros drosglwyddo cyfoeth yr iaith a'r diwylliant Cymraeg i'w disgyblion. Yn y mwyafrif o adrannau, gwneir ymdrech fuddiol i osod y pwnc mewn cyd-destun cyfoes, er enghraifft trwy chwarae cerddoriaeth boblogaidd a thrafod nofelau Cymraeg diweddar. Mae hyn yn ei dro yn meithrin chwilfrydedd ynglŷn â'r Gymraeg ymhlith disgyblion a mwynhad ohoni. Mae'n cyfrannu yn ogystal at greu ethos sy'n hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru ac agweddau cadarnhaol tuag atynt.

76 Mae bron pob un o'r adrannau yn cynnig cyfleoedd niferus i ddisgyblion dderbyn mynediad i amrywiaeth eang o weithgareddau mewn sefyllfaoedd y tu hwnt i wersi Cymraeg, er enghraifft rhai a drefnir gan yr Urdd, mentrau iaith ac eisteddfodau lleol.

77 Gwelir brwdfrydedd heintus o ran ceisio symud y pwnc yn ei flaen yn dechnolegol mewn ychydig o adrannau Cymraeg. Mae'r defnydd dyfeisgar o TGCh yn yr adrannau hyn yn rhan bwysig o ddatblygu addysgeg y Gymraeg. Mae'n ymgysylltu'n effeithiol â ffocws clir yr adrannau hyn ar ehangu darpariaeth yr ysgol i gynnig mwy o gyfleoedd i siarad yr iaith yn anffurfiol drwy gyfrwng gweithgareddau fel sianeli radio ysgol.

78 Mae cyfleoedd niferus yn y rhan fwyaf o ysgolion i ddatblygu elfennau priodol o'r fframwaith llythrennedd yn llwyddiannus. Yn yr enghreifftiau gorau, mae ychydig o ysgolion uwchradd yn amlinellu eu blaenoriaethau ieithyddol yn flynyddol ac mae adrannau ar draws y cwricwlwm yn teilwra eu cynlluniau gwaith yn bwrpasol i gefnogi datblygiad ieithyddol eu disgyblion.

79 Mae llawer o'r adrannau Cymraeg wedi diwygio eu cynlluniau gwaith dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Maent wedi canolbwyntio'n benodol ar addasu cynlluniau dysgu yn nghyfnod allweddol 3 fel paratoad ar gyfer y cwrs TGAU newydd. Mae'r adrannau gorau wedi bod yn llwyddiannus wrth geisio sicrhau bod eu cynlluniau diwygiedig yn gyfoes eu hapêl ac yn ysgogol i'w disgyblion. Mae hyn i'w groesawu yng nghyd-destun y gostyngiad diweddar yn niferoedd disgyblion sydd yn parhau i astudio'r Gymraeg i Safon Uwch a thu hwnt.

80 Mae'r cynlluniau gwaith diwygiedig yn ffocysu'n briodol ar y medrau iaith, yn benodol ar wella safonau ysgrifennu a mireinio gafael y disgyblion ar gywirdeb iaith. Maent yn rhoi pwyslais ar annog annibyniaeth ymhlith y disgyblion yn ogystal, er mwyn datblygu eu medrau rhesymu yn effeithiol.

81 Mae adran Gymraeg Ysgol Dyffryn Ogwen wedi diwygio ei chynlluniau gwaith yng nghyfnod allweddol 3 yn bwrpasol. Mae'r lle a roddir i ddatblygu medrau TGCh fel rhan o'r cynlluniau diwygiedig yn agwedd nodedig arnynt.

**Astudiaeth achos 4: Ysgol Dyffryn Ogwen**

**Gwybodaeth am yr ysgol**

Ysgol gyfun gymunedol ddwyieithog 11-18 ym mhentref Bethesda yng Ngwynedd yw Ysgol Dyffryn Ogwen. Mae pump o ysgolion cynradd yn bwydo'r ysgol. Mae 400 o ddisgyblion ar y gofrestr ac mae 50 o'r rhain yn y chweched dosbarth. Daw tua 80% o'r disgyblion o gartrefi lle mae o leiaf un rhiant yn siarad Cymraeg.

**Cyd-destun a chefndir yr arfer**

Mae'r ysgol wedi penderfynu bod angen gosod y sylfeini yn gadarn yng nghyfnod allweddol 3 er mwyn paratoi ar gyfer y newidiadau yn y manylebau TGAU. Mae'r adran Gymraeg wedi addasu meysydd astudio cyfnod allweddol 3 yn unedau gwaith thematig sydd yn dilyn "Trywydd y Testunau". Mae hyn yn caniatáu i'r disgyblion adnabod nodweddion y chwe thestun anllenyddol mewn darnau darllen a chynllunio'u gwaith ysgrifenedig i amlygu'r nodweddion hynny. Targedir agweddau penodol ar y fframwaith llythrennedd cenedlaethol a rhaglen astudio'r Gymraeg yng nghyfnod allweddol 3 ym mhob tasg estynedig.

**Disgrifiad o'r gweithgaredd/strategaeth**

Wrth addasu'r meysydd astudio, mae'r athrawon wedi dechrau ystyried adnoddau digidol a rhyngweithiol yng nghyd-destun nodweddion y chwe thestun anllenyddol a'r modd y gallant gyfrannu at gamau cynllunio tasgau. Mae'r adran wedi llwyddo i daro nifer o linynnau ac elfennau penodol o'r fframwaith cymhwysedd digidol wrth gynllunio'r tasgau estynedig hyn. Mae'r adran yn arbrofi gyda nifer o lwyfannau digidol ac apiau amrywiol ar gyfer llechi cyfrifiadurol.

Mae'r adran wedi creu gwefan er mwyn cysylltu meysydd astudio yn uniongyrchol â'r deunydd digidol sydd ar wefan HwB+. Mae gan bob blwyddyn ei gwefan a'i hadnoddau ei hun ac mae aelodau'r adran yn cadw'r cynnwys yn gyfredol, drwy ychwanegu ati a diwygio'r adnoddau'n gyson. Mae'n cynnwys llawer o ddolenni i wefannau rhyngweithiol allanol a chrëwyd llawer o weithgareddau ar gyfer dosbarthiadau penodol a grwpiau o ddysgwyr drwy'r adnoddau hyn.

**Effaith ar ddarpariaeth a safonau**

Mae disgyblion yn yr ysgol yn cydweithio ar dasgau ac yn datblygu eu medrau ar y cyd. Maent yn creu tasgau mewn grwpiau ac yn gwerthuso llwyddiant tasgau ar y cyd yn effeithiol. Er enghraifft, trwy lunio tasg drafod gan ddefnyddio TGCh i godi ymwybyddiaeth o sefyllfa ffoaduriaid yng Nghymru, mae'r disgyblion yn ystyried sefyllfa real a chyfoes ac iddi gynulleidfa benodol yn ogystal.

82 Wrth addasu eu cynlluniau dysgu mae llawer o ysgolion wedi cynyddu'r her a gynigir i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 3. Er enghraifft, mae llawer ohonynt bellach yn cynnwys tasgau buddiol ar batrwm y profion darllen cenedlaethol. Tra'n cynyddu'r

her ar un llaw, mae'r athrawon gorau hefyd yn hybu hyder a mwynhad eu disgyblion ac yn eu hatgoffa yn gyson bod dyfalbarhad a dycnwch yn rhinweddau pwysig er mwyn llwyddo.

83 Mae llawer o'r adrannau yn darparu gweithgareddau blaengar sydd yn paratoi disgyblion ar gyfer yr arholiad TGAU llenyddiaeth Gymraeg yn gynt nag yn y gorffennol. Er enghraifft, maent yn dadansoddi ac yn gwerthfawrogi cerdd nas gwelwyd o'r blaen a'i chymharu gyda cherdd sy'n gyfarwydd iddynt.

84 Mae gan lawer o athrawon Cymraeg mewn ysgolion uwchradd ddisgwyliadau uchel o'u disgyblion ac mae llawer ohonynt yn rhoi cyfleoedd da iddynt fynegi eu barn am waith er mwyn iddynt allu dylanwadu yn eu tro ar y cynlluniau gwaith. Mewn ychydig o wersi, nid yw'r profiadau a ddarperir i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 3 yn adeiladu'n ddigon systematig ar eu profiadau yng nghyfnod allweddol 2. Yn yr achosion hyn, nid yw'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo rhwng y naill gyfnod allweddol a'r llall yn llwyddo i sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu medrau Cymraeg hyd eithaf eu gallu.

85 Mae'r gwersi hyn yn aml yn rhy athro ganolog ac mae'r disgyblion yn rhy oddefol. Er enghraifft, mae ychydig o athrawon yn rhy barod i ddarllen testunau eu hunain yn hytrach na gofyn i'r disgyblion eu darllen ar goedd. Yn y gwersi hyn mae'r disgyblion yn adweithio i'r cyfarwyddyd a gânt yn hytrach na bwrw ati'n annibynnol yn dilyn sbardun cychwynnol. Nid yw'r tasgau na'r gweithgareddau yn ddigon heriol er mwyn cynnal diddordeb pob disgybl a sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd da. Nid yw'r cwestiynu yn ddigion miniog i ymestyn dealltwriaeth a medrau disgyblion ymhellach.

86 Mae ychydig o adrannau yn cynllunio gwersi sydd yn cynnwys gormod o weithgareddau byrion a gormod o adnoddau print fel llyfrynnau neu daflenni gwaith. Ar y cyfan, nid yw'r athrawon yn addasu'r gwersi hyn i gyd-fynd ag anghenion penodol y disgyblion. Mae'r athrawon yn symud yn rhy gyflym drwy'r gweithgareddau yn hytrach na sicrhau dyfnder dealltwriaeth. O ganlyniad, mae ymatebion y disgyblion yn aml yn gyfyngedig ac arwynebol.

### Addysgu ac asesu

87 Mae'r rhan fwyaf o athrawon Cymraeg yn arddangos llawer o nodweddion addysgu cryf. Mae'r rhain yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau Cymraeg disgyblion:

- meddu ar wybodaeth bynciol dda iawn a modelu iaith gyfoethog
- cynllunio strwythuredig a chreadigol sy'n sicrhau bod y gweithgareddau yn adeiladu'n bwrpasol ar ddysgu blaenorol
- cwestiynu treiddgar ac enghreifftio atebion er mwyn codi disgwyliadau disgyblion
- procio disgyblion yn sensitif pan wneir camgymeriadau
- cynnal perthnasau gwaith cadarnhaol a defnyddio hiwmor yn briodol

88 Mae'r rhan fwyaf o wersi llwyddiannus yn sicrhau rhyngberthynas y medrau iaith ac yn rhoi sylw priodol i elfennau o lythrennedd a chywirdeb iaith. Datblygu medrau llafar yw'r sail i'r rhan fwyaf o'r gwersi hyn. Mewn ychydig o adrannau ceir ffocws ar ddrilio er mwyn cadarnhau patrymau gramadegol cyn dechrau ar waith ysgrifennu. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ysgolion yn cydweithio'n ddigon agos gyda'r ysgolion

cynradd sy'n eu bwydo er mwyn sicrhau cysondeb a chyd-ddealltwriaeth gadarn o ran disgwyliadau ieithyddol a methodoleg er mwyn dileu y gwallau cyffredin sy'n nodweddu gwaith y lleiafrif o ddisgyblion.

89 Mae gan awdurdod lleol Gwynedd drefniadau effeithiol ar gyfer disgyblion sy'n ymuno ag ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn hwyr heb fawr o gymhwysedd blaenorol yn y Gymraeg.

**Cameo: Canolfannau iaith Gwynedd – addysg drochi i ddisgyblion sy'n newydd i'r Gymraeg**

Mae pedair canolfan iaith gynradd ac un ganolfan iaith uwchradd yn y sir. Maent i gyd yn gosod sylfaen gref i'r disgyblion yn y Gymraeg er mwyn eu galluogi i gyfranogi'n llawn ym mhrofiadau addysg ddwyieithog a manteisio ar fedrau dwyieithrwydd. Yn 2017, llwyddodd y mwyafrif o'r disgyblion a dderbyniodd addysg drochi yn y ganolfan uwchradd ac a safodd yr arholiad Cymraeg (iaith gyntaf), i ennill cymhwyster lefel 2 yn yr iaith.

Mae'r athrawon yn y canolfannau yn defnyddio methodoleg hynod effeithiol er mwyn cyflwyno iaith i'w disgyblion. Rhoddir y pwyslais pennaf ar ddatblygu medrau gwrando a siarad trwy ddrilio'r iaith gyda'r dosbarth cyfan, unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Mae'r fethodoleg hon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fanylu ar gywirdeb iaith, clywed ac ymarfer ynganu geirfa a phatrymau iaith a datblygu hyder mewn amgylchedd ddiogel. Prin iawn yw'r defnydd o'r Saesneg drwy gydol y cyrsiau trochi wrth i'r athrawon gynnal yr iaith darged (Cymraeg) er mwyn sefydlu a normaleiddio'r iaith.

Neilltuir amser yn ddyddiol i ddatblygu darllen y disgyblion dan arweiniad un-i-un. Mae dysgu trawsgwricwlaidd yn digwydd pryd y caiff y disgyblion gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith a ddysgwyd mewn cyd-destun pwnc. Caiff y disgyblion eu hannog yn gyson i ddefnyddio'r iaith y tu hwnt i furiau'r dosbarth. Mae brwdfrydedd yr athrawon sy'n cyflwyno'r gwersi yn y canolfannau yn y canolfannau iaith yn heintus.

Mae staff y canolfannau iaith yn darparu gwasanaeth ôl-ofal gwerthfawr drwy gefnogi'r disgyblion a fynychodd y canolfannau yn eu hysgolion dyddiol. Mae'r strategaeth ôl-ofal yn gosod meini prawf a cherrig milltir pendant gan gynnwys codi ymwybyddiaeth uchel ymhlith staff yr ysgolion o anghenion ieithyddol y disgyblion hyn.

90 Mae Ysgol Glan Clwyd yn gweithredu strategaeth sydd yn cynnig dewis i ddisgyblion ar ddiwedd blwyddyn 6, a fyddai'n ymdopi â dysgu iaith newydd, i gael eu 'trochi' a symud o addysg cyfrwng Saesneg i addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r disgyblion yn cael eu haddysg mewn dosbarthiadau bychain ac maent yn dilyn yr un cwricwlwm ond mae'r gwaith wedi ei deilwra i ofynion disgyblion sy'n ceisio caffael iaith o'r newydd.

**Cameo: Cynllun trochi Ysgol Glan Clwyd**

Ym Mlwyddyn 7 ac 8, mae'r disgyblion yn derbyn eu haddysg fel dosbarth trochi ym mhob pwnc ac eithrio addysg gorfforol, Saesneg a thechnoleg. Darperir tair awr o wersi Cymraeg bob wythnos.

Mae'r gwersi Cymraeg ym Mlwyddyn 7 yn canolbwyntio'n bennaf ar yr elfen lafar ac mae'r defnydd o Saesneg yn lleihau gydag amser. Mae'r dosbarthiadau bychain (tua deg disgybl ar gyfartaledd dros y pum mlynedd diwethaf) yn rhoi'r cyfle i'r disgyblion fagu hyder cyn ymuno â'r brif ffrwd ym Mlwyddyn 9 neu hyd yn oed ynghynt.

Ar gyfartaledd, mae'r disgyblion sy'n rhan o'r cynllun trochi wedi ennill mwy o raddau A*-C yn y Gymraeg na disgyblion eraill dros y pum mlynedd diwethaf. Mae eu canlyniadau Saesneg a phynciau eraill yn uwch hefyd ar gyfartaledd dros yr un cyfnod.

91 Mae'r ddarpariaeth yn y rhan fwyaf o adrannau Cymraeg yn sicrhau amrywiaeth o destunau darllen diddorol. Mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i'r llyfrau maent yn eu darllen gan gynnwys gwaith awduron cyfoes.

92 Mae'r rhan fwyaf o adrannau yn sicrhau eu bod yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymarfer ysgrifennu mewn ystod eang o ffurfiau ac at wahanol ddibenion. Mae llawer o ddisgyblion yn dyfnhau eu dealltwriaeth o nodweddion ffurfiau fel erthyglau, ymsonau, deialogau, ysgrifau personol a cherddi. Canlyniad pellach yw bod y mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu'n ysgrifenwyr effeithiol eu hunain.

93 Mae'r rhan fwyaf o adrannau yn gwneud defnydd effeithiol o gyfeirlyfrau iaith strwythuredig y maent wedi eu datblygu eu hunain er mwyn gwella cywirdeb iaith a chodi safonau llythrennedd.

94 Mae'r rhan fwyaf o adrannau Cymraeg yn asesu gwaith eu disgyblion yn fanwl ac yn dadansoddi cryfderau a meysydd penodol i'w gwella. Mae'r adborth i waith disgyblion fel arfer yn cyfeirio'n briodol at ddatblygu eu medrau iaith. Mewn ychydig o achosion nid yw'r sylwadau yn rhoi digon o arweiniad i ddisgyblion ac felly nid ydynt yn gallu mynd ati i wella ansawdd eu gwaith.

95 Mewn llawer o wersi, caniateir amser penodol ar ddechrau'r wers naill ai i gywiro gwallau cyffredin, ymarfer patrymau gramadegol neu i wella darn o waith sydd angen sylw. Caiff y cyfnod hwn ei alw'n 'Gwella'r Gwallau' neu 'Amser Ll'nau', er enghraifft, mewn ysgolion gwahanol. Mae llawer o ddisgyblion yn gwerthfawrogi'r arfer hwn ac maent yn cydnabod ei fod yn cael effaith gadarnhaol ar wella eu gwaith gwreiddiol.

96 Mae'r sylw a roddir i wella gwaith ysgrifenedig yn nodwedd effeithiol o waith llawer o adrannau. Yn aml, mae'r athrawon yn gosod cwestiynau neu dasgau ymestynnol i ddisgyblion fel rhan greiddiol o'u gweithdrefnau asesu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i'r heriau hyn ac yn llwyddo i wneud cynnydd pellach.

97 Mae bron pob un o’r adrannau Cymraeg yn olrhain cynnydd eu disgyblion yn rheolaidd ac, yn sgil hyn, yn creu grwpiau penodol er mwyn ymateb i anghenion disgyblion. Mae llawer o adrannau yn gwneud defnydd effeithiol o ganlyniadau’r profion darllen cenedlaethol i’r perwyl hwn.

98 Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod beth yw eu targedau iaith ac yn y mwyafrif o ysgolion nhw eu hunain sy’n gyfrifol am lunio eu targedau neu feini prawf llwyddiant ar gyfer tasgau ysgrifennu estynedig. Yn yr enghreifftiau mwyaf effeithiol, mae’r athrawon yn hyfforddi’r disgyblion i ddefnyddio meini prawf llwyddiant i asesu gwaith eu cymheiriaid, er enghraifft er mwyn darparu adborth ar waith llafar. Mewn ychydig o ysgolion, mae tasgau asesu ar gyfer dysgu yn aneffeithiol, er enghraifft cywiro gwaith cymheiriaid yn anghywir neu gywiro’r nodweddion anghywir. Yn yr achosion hyn nid oes gan y disgyblion y ddealltwriaeth angenrheidiol i wella gwaith disgyblion eraill yn effeithiol.

# Arweinyddiaeth a rheolaeth

## Arweinyddiaeth strategol

99 Mae gan y rhan fwyaf o benaethiaid ysgolion cynradd, uwchradd a phob oed yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r adolygiad hwn weledigaeth glir ar gyfer y Gymraeg. Craidd y weledigaeth hon yw'r argyhoeddiad dwfn y dylai pob disgybl wneud y cynnydd gorau posib wrth ddatblygu eu medrau yn y Gymraeg ynghyd â meithrin ymdeimlad cadarn o Gymreictod.

100 Mae safonau yn y Gymraeg a hybu Cymreictod eu disgyblion yn flaenoriaeth yng nghynlluniau gwella'r mwyafrif o ysgolion. Er enghraifft, mae arweinwyr Ysgol Gynradd Gymraeg Caerffili yn atgoffa'u staff yn gyson o'u cyfrifoldeb i annog, cefnogi a hybu defnydd y Gymraeg o fewn yr ysgol.

**Astudiaeth achos 5: Arweinyddiaeth yn Ysgol Gynradd Gymraeg Caerffili**

**Gwybodaeth am y darparwr/y lleoliad/yr ysgol**

Lleolir Ysgol Gynradd Gymraeg Caerffili yn nhref Caerffili. Mae tua 400 o ddisgyblion 3 i 11 oed yn yr ysgol. Caiff y disgyblion eu haddysgu mewn meithrin ran amser a 12 dosbarth o'r derbyn i Flwyddyn 6. Mae gan bron i 11% o'r disgyblion yr hawl i gael prydau ysgol am ddim. 4% yn unig o'r disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref. Mae pob disgybl o'r ysgol yn trosglwyddo i'r ysgol gyfun cyfrwng Cymraeg lleol.

**Cyd-destun a chefndir yr arfer**

Arwyddair yr ysgol yw 'Hawl Plentyn ei Iaith' ac mae datblygiad medrau iaith y disgyblion yn ganolog i'w gwaith. Mae gweledigaeth yr ysgol yn seiliedig ar ddisgwyliadau uchel gan bawb sy'n gysylltiedig â hi, datblygu partneriaethau effeithiol rhwng yr holl gyfranddeiliaid, sicrhau bod yr ysgol yn un hapus a chroesawgar a bod pawb yn gwireddu eu llawn botensial.

**Disgrifiad o'r gweithgaredd/strategaeth**

Mae gan yr ysgol strwythur rheoli clir sy'n sicrhau bod gweledigaeth y pennaeth yn cael ei gweithredu ar bob lefel gan arweinwyr sydd â disgwyliadau uchel o'u timau. Mae gan yr ysgol systemau rheoli perfformiad cadarn sy'n sicrhau bod pawb yn deall cynllun gwella'r ysgol a'u rôl wrth godi safonau. Ceir ffocws blynyddol ar elfen o lythrennedd.

Y Cydlynydd Llythrennedd yw dirprwy bennaeth yr ysgol ac arweinydd y cyfnod sylfaen, ac mae mewn sefyllfa gref i sicrhau bod datblygu'r Gymraeg yn flaenoriaeth i'r ysgol. Mae'r consortiwm lleol wedi cydnabod gwaith yr ysgol a'i gwneud yn hwb arfer da ar gyfer holl ysgolion cynradd Cymraeg y rhanbarth. Caiff y cynlluniau gwaith eu gwerthuso'n flynyddol. Mae hyn yn sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth o'r cyfnod sylfaen hyd at ddiwedd cyfnod allweddol 2. Caiff cynlluniau athrawon eu gwerthuso'n rheolaidd gyda ffocws clir ar safonau llythrennedd yn y ddwy Iaith.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod ffocws cyson ar safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth o ran llythrennedd mewn cyfarfodydd staff. Mae athrawon a staff cynorthwyol yn asesu ar y cyd mewn triawdau ac yn trafod nodweddion gwaith llafar, darllen ac ysgrifennu, yn enwedig wrth gymedroli a chyd-safoni. Disgwylir bod adborth a deialog cyson ar lafar ac o fewn llyfrau rhwng staff addysgu a'r disgyblion.

Mae'r ysgol yn rhedeg ystod eang o glybiau allgyrsiol sydd â ffocws ar hybu safonau llythrennedd. Er enghraifft, y Clwb Clecs a'r clwb ysgrifennu a chelf sy'n creu llyfrau ar gyfer disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r tîm llythrennedd yn creu adroddiad blynyddol yn arfarnu safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth yn y Gymraeg. Caiff yr adroddiad ei drafod gyda'r corff llywodraethol gan gynnwys y llywodraethwr sydd â chyfrifoldeb am lythrennedd.

**Effaith ar ddarpariaeth a safonau**

Mae bron pob disgybl yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig yn y Gymraeg o waelodlin isel iawn erbyn diwedd y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion sydd â'r gallu i gyrraedd y lefelau uwch yn y Gymraeg yn cyflawni hynny erbyn diwedd y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2. Mae ansawdd y ddarpariaeth yn gyson dda a chaiff elfennau o arfer ragorol eu nodi o fewn gweithdrefnau hunanarfarniad cynhwysfawr yr ysgol.

101 Mae gan yr arweinwyr gorau ddisgwyliadau uchel ohonynt eu hunain, eu staff a'u disgyblion ac maent yn cynnal ffocws parhaus ar sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol iawn. Maent yn herio ac yn cefnogi eu cydweithwyr ac yn darparu arweiniad i'r ysgol gyfan ar ddisgwyliadau mewn gwersi. Er enghraifft, gweithgareddau ymestynnol sy'n herio disgyblion a dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd adborth er mwyn datblygu a gwella eu gwaith.

102 Mae ganddynt argyhoeddiad dwfn yn ogystal, bod y disgyblion sydd yn cyflawni'r safonau uchaf yn mwynhau datblygu eu medrau llythrennedd. Maent yn sicrhau bod darparu profiadau dysgu ysgogol ac ymestynnol ar gyfer yr holl ddisgyblion, beth bynnag fo'u gallu yn flaenoriaeth strategol.

103 Mae gan bron pob ysgol gynradd gydlynydd ar gyfer y Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf o'r cydlynwyr hyn yn gweithio'n effeithiol gydag arweinwyr eraill yr ysgol er mwyn gweithredu cynlluniau sydd yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn effeithiol ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion.

104 Mewn lleiafrif o ysgolion gwneir trefniadau buddiol i sicrhau bod gan gydlynydd y Gymraeg amser rheolaethol. Yn Ysgol Gynradd Gymraeg Casnewydd, er enghraifft, mae hyn yn caniatáu i'r cydlynydd adnabod diffygion ieithyddol ar draws cyfnod allweddol 2 a chydlynu sesiynau gloywi iaith effeithiol iawn ar draws y cyfnod allweddol.

**Cameo: Ysgol Gynradd Gymraeg Casnewydd**

Wrth fonitro llyfrau, mae'r athrawon yn amlygu gwallau cyffredin ar draws y cyfnod allweddol, er enghraifft sillafu, atalnodi a phatrymau gramadegol. Ar sail y wybodaeth yma, mae'r cydlynydd iaith yn cynnal sesiynau gloywi ddwywaith yr wythnos i holl ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn seiliedig ar y gwallau hyn. Caiff y disgyblion eu grwpio i fynychu'r sesiynau hyn ar sail eu hanghenion iaith penodol, yn hytrach na'u hoed.

Mae'r pwyslais ar waith llafar yn y sesiynau gloywi hyn. Maent yn cynnwys gweithgareddau byr a bachog sydd yn eu tro yn cael effaith gadarnhaol ar gywirdeb mynegiant y disgyblion ar lafar ac yn ysgrifenedig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn dod i ddeall rheolau gramadegol yn ogystal â phatrymau sillafu. Mae'r sesiynau yn herio'r disgyblion beth bynnag fo'u gallu ac yn ennyn eu diddordeb.

## Cynllunio gwelliant

105 Mae bron pob ysgol yn gweithredu cylch monitro trylwyr sydd yn canolbwyntio'n bennaf ar arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau a chanfod barn disgyblion ar eu profiadau dysgu. Mae prosesau hunanarfarnu cyson a thrylwyr wedi eu sefydlu mewn llawer o ysgolion sydd yn sicrhau bod ganddynt ddarlun cywir o safonau yn y Gymraeg. Mae'r ysgolion hyn yn dadansoddi cyrhaeddiad a chyflawniad eu disgyblion yn fanwl. Gwneir defnydd gwerthfawr o wybodaeth ystadegol er mwyn adnabod disgyblion a grwpiau o ddisgyblion y mae angen hwb arnynt, er enghraifft cywirdeb ysgrifennu neu'r uwch-fedrau darllen. Mae'r dadansoddiadau gorau yn cydnabod perfformiad yr ysgol yng nghyd-destun ysgolion tebyg eraill.

106 Ar sail y gweithdrefnau monitro a hunanarfarnu, mae llawer o ysgolion yn cynllunio'n strategol a bwriadus er mwyn codi safonau yn y Gymraeg. Mae cynlluniau gwella'r ysgolion hyn yn cyfleu'n glir ddyheadau arweinwyr i gyflwyno cymaint o brofiadau amrywiol a chyfoethog â phosib i'w disgyblion trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn yr achosion gorau mae cynlluniau gwella'r ysgol gyfan a maes cwricwlwm y Gymraeg yn adlewyrchu ei gilydd i raddau helaeth iawn.

107 Mae cynlluniau gwella y rhan fwyaf o ysgolion yn cynnwys targedau meintiol a chamau datblygu synhwyrol sy'n gweithredu fel sail gadarn i godi safonau yn y Gymraeg. Mae llawer o ysgolion yn rhoi blaenoriaeth amlwg i ddatblygu medrau llythrennedd eu disgyblion yn eu cynlluniau gwella. Mae'r blaenoriaethau yn aml yn benodol ac yn amrywio rhwng, er enghraifft, 'cau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched ar ddiwedd cyfnod allweddol 2' a 'chodi nifer y disgyblion sy'n cyrraedd lefelau uwch na'r disgwyl – yn arbennig y bechgyn'.

108 Mae arweinwyr yr ysgolion hyn yn gwerthuso eu cynlluniau gwella yn fanwl ac yn rheolaidd ac yn diwygio eu cynlluniau yn briodol yn ôl yr angen. Mewn llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw mae cynllunio bwriadus a gweithredu effeithiol ar feysydd i'w gwella wedi cael effaith fuddiol ar safonau medrau iaith y disgyblion. Mae

ychydig o ysgolion yn rhy hael wrth ddod i farn ar safonau dysgu ac addysgu yn y Gymraeg. Nid yw'r ysgolion hyn yn gwerthuso eu cynlluniau gwella yn ddigon manwl. Yn yr achosion hyn mae dogfennau monitro'r ysgol yn rhy arwynebol ac nid ydynt yn ddigon miniog i fynd i'r afael â chodi safonau.

### Dysgu proffesiynol

109 Mae'r mwyafrif o ysgolion yn elwa ar drefniadau dysgu proffesiynol buddiol er mwyn cryfhau ymhellach y ddarpariaeth Gymraeg. Yn yr achosion hyn, mae strwythurau sydd yn caniatáu cydweithio a rhannu arbenigedd yn cael effaith gadarnhaol ar safonau addysgu ac ar gyflawniad disgyblion. Mae swyddogion cefnogol rhanbarthol yn gwneud cyfraniad gwerthfawr wrth gyflwyno arferion da ynghyd â monitro safonau a'r ddarpariaeth.

110 Mae llawer o arweinwyr wedi sefydlu diwylliant o ddatblygiad proffesiynol parhaus yn eu hysgolion. Maent yn deall bod yr ysgol gyfan yn gyfrifol am gynnydd eu disgyblion ac yn mynnu bod pob aelod o staff, gan gynnwys cynorthwywyr addysgu, yn cyfrannu at gynlluniau gwella. Er enghraifft, mae Ysgol Gymraeg Pwll Coch, Caerdydd wedi sefydlu 'Hwb Llythrennedd' yn yr ysgol. Mae'r 'Hwb' yn cynnwys y cydlynwyr iaith, ADY a disgyblion mwy abl a thalentog (MAT) ac aelod o'r uwch dîm arwain. Maent yn rhoi ffocws clir i fapio a chynllunio cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar fedrau ysgrifennu estynedig disgyblion yn yr ysgol hon.

### Partneriaethau

111 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd ac adrannau Cymraeg uwchradd yn elwa ar ystod o bartneriaethau rhanbarthol a chenedlaethol buddiol er mwyn rhannu arferion da o ran addysgeg gyfoes y Gymraeg. Yn yr achosion gorau mae gan ysgolion cynradd clwstwr drefniadau effeithiol er mwyn rhannu arferion da o ran llythrennedd. Mewn ychydig o ysgolion uwchradd mae'r adrannau Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd tramor modern yn cydweithio'n effeithiol er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cysylltiadau rhwng y pynciau o ran llythrennedd.

112 Mae'r mwyafrif o ysgolion yn rhoi pwyslais priodol ar gryfhau'r berthynas gyda rhieni er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o ddatblygiad medrau llythrennedd eu plant. Er enghraifft, mae Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James, Pontypridd yn blaenoriaethu agweddau gwahanol, sillafu dyweder, yn y cynllun gwella ysgol yn flynyddol ac yn rhoi cyfle i rieni fynychu'r dosbarthiadau er mwyn gweld strategaethau penodol ar waith.

113 Mae gan y mwyafrif o ysgolion drefniadau priodol ar gyfer sicrhau parhad a dilyniant ieithyddol rhwng cyfnodau allweddol 2 a 3. Fodd bynnag, nid yw trefniadau pontio lleiafrif o ysgolion yn ddigon effeithiol. Yn yr achosion hyn, caiff y gweithgareddau eu cyfyngu'n aml i gyfarfodydd cymedroli blynyddol a phrin yw'r cydweithio cwricwlaidd buddiol rhwng yr ysgolion.

114 Ledled Cymru, er gwaetha'r cynnydd bach yng nghyfran y disgyblion sy'n cael eu hasesu mewn Cymraeg ym Mlwyddyn 9, nid yw rhyw 12% o ddysgwyr sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg ym Mlwyddyn 6 yn cael eu hasesu mewn Cymraeg erbyn

iddynt gyrraedd diwedd cyfnod allweddol 3 (Llywodraeth Cymru, 2017c). Nid yw digon o awdurdodau lleol yn cynllunio'n strategol er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn cael y cyfle i ddatblygu'u medrau Cymraeg yn y ffordd fwyaf effeithiol.

115 Yn Ysgol Bro Teifi, ysgol bob oed yr ymwelwyd â hi, mae Cymreictod y disgyblion yn rhan hanfodol o'i pholisi ymddygiad. Mae'r ysgol hon yn mentro ac yn arloesi wrth gynllunio'n fwriadus ar gyfer y Gymraeg. Yr iaith Gymraeg a'r hunaniaeth ddiwylliannol Gymreig yw blaenoriaeth strategol gyntaf yr ysgol ac mae cynllun gwella'r adran Gymraeg yn ddrych o gynllun gwella'r ysgol gyfan. Un o'r blaenoriaethau hynny yw gwella cwricwlwm cyfnodau allweddol 2 a 3 er mwyn sicrhau parhad a dilyniant ar draws y ddau gyfnod. Mae'r cynllun thematig sydd ar waith ym Mlwyddyn 7 yn un blaengar ac yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddatblygu'r medrau Cymraeg ar draws nifer o bynciau.


116 Mae bron pob ysgol gynradd yr ymwelwyd â nhw wedi mabwysiadu'r Siarter Iaith er mwyn datblygu'r Gymraeg yn llawn mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Er nad yw hyn, o reidrwydd, yn nodwedd newydd o waith y rhan fwyaf o ysgolion, mae'r strategaeth hon yn cael effaith gadarnhaol ar gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth llawer o ddisgyblion o bwysigrwydd cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg ynghyd â dyfnhau eu dealltwriaeth o Gymreictod. Mae llawer o ysgolion yn parhau i gynnig cyfleoedd niferus i ddisgyblion dderbyn mynediad i amrywiaeth eang o weithgareddau mewn sefyllfaoedd y tu allan i'r ysgol, er enghraifft yr Urdd a'r mentrau iaith lleol.

117 Mae gan bron bob ysgol uwchradd yn ogystal gysylltiadau cyfoethog er mwyn dyfnhau profiadau'r disgyblion o'u treftadaeth ieithyddol a diwylliannol. Er hynny, mae natur ieithyddol dalgylchoedd y rhan fwyaf o ysgolion yn gymysg. Ychydig iawn o ysgolion sy'n nodi yn eu cynlluniau gwella mai'r her iddynt yw dathlu'r gwahanol acenion yn eu hardaloedd a datblygu medrau llafaredd y disgyblion mwyaf anfoddog i fod yn siaradwyr hyderus.

# Atodiad 1: Asesiadau athrawon yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3

## Cyfnod allweddol 2

**Ffigwr 1: Canran y disgyblion yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 4) ac uwchlaw'r lefel ddisgwyliedig (lefel 5+) mewn pynciau craidd ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 (2013-2017)**





Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2017d)

Er 2013 bu cynnydd flwyddyn ar ôl blwyddyn yng nghyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 4 ac yn uwch) mewn Cymraeg yng nghyfnod allweddol 2. Yn ystod yr un cyfnod, mae perfformiad mewn Cymraeg wedi bod yn debyg i berfformiad yn y tri phwnc craidd arall.

Dros y pum mlynedd diwethaf, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 5 ac yn uwch mewn Cymraeg hefyd wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae perfformiad mewn Cymraeg ar lefel 5 neu'n uwch wedi bod yn is nag ydyw ar gyfer y pynciau craidd eraill am y pum mlynedd diwethaf. Mae'r bwlch, fodd bynnag, wedi cau'n raddol yn ystod y cyfnod hwn.

**Ffigwr 2: Canran y disgyblion yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 4) ac uwchlaw'r lefel ddisgwyliedig (lefel 5+) mewn llafaredd, darllen ac ysgrifennu Cymraeg ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 (2013-2017)**






Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2017d)

Bu cynnydd mewn perfformiad ymhob un o'r targedau cyrhaeddiad ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4 ac yn uwch) dros y pum mlynedd diwethaf. Perfformiad mewn gwaith llafar sydd gryfaf, fodd bynnag, gwelwyd y cynnydd mwyaf yn natblygiad medrau ysgrifennu disgyblion. Mae'r bwlch rhwng perfformiad llafar ac ysgrifennu bron wedi haneru yn ystod y cyfnod hwn.

Bu cynnydd mewn perfformiad ymhob un o'r targedau cyrhaeddiad ar lefel 5 neu uwch dros y pum mlynedd diwethaf. Mae'r cynnydd yn debyg o ran y medrau i gyd ond mae'r perfformiad mewn gwaith llafar a darllen, fodd bynnag, yn parhau i fod yn gryfach nag ydyw mewn ysgrifennu. Nid yw'r bwlch rhwng cyrhaeddiad yn y medrau hyn wedi cau yn ystod y cyfnod hwn.

**Ffigwr 3: Canrannau y bechgyn a merched yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 4) ac uwchlaw'r lefel ddisgwyliedig (lefel 5+) mewn llafaredd, darllen ac ysgrifennu Cymraeg ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 (2013-2017)**





Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2017d)

Mae bechgyn wedi gwneud mwy o gynnydd na merched yn ystod y pum mlynedd diwethaf ac wedi llwyddo i gau'r bwlch cyrhaeddiad ar draws y medrau iaith. Fodd bynnag, mae merched yn parhau i berfformio'n well na bechgyn ym mhob un o'r targedau cyrhaeddiad mewn Cymraeg dros y cyfnod hwn.

Mae merched wedi gwneud bron ddwywaith cymaint o gynnydd ar lefel 5 neu uwch na bechgyn yn ystod y pum mlynedd diwethaf. O ganlyniad, mae'r bwlch rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched ar y lefelau uwch wedi cynyddu'n sylweddol dros y pum mlynedd diwethaf.

**Cyfnod allweddol 3**

**Ffigwr 4: Canran y disgyblion yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 5) ac uwchlaw'r lefel ddisgwyliedig (lefelau 6 a 7+) yn y pynciau craidd ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 (2013-2017)**





Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2017e)

Er 2013 bu cynnydd flwyddyn ar ôl blwyddyn yng nghyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 5 ac yn uwch) mewn Cymraeg yng nghyfnod allweddol 3. Yn ystod yr un cyfnod, mae perfformiad mewn Cymraeg wedi bod uwchlaw perfformiad mewn mathemateg a Saesneg ond yn debyg i berfformiad mewn gwyddoniaeth.

Dros y pum mlynedd diwethaf, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 6 ac yn uwch mewn Cymraeg hefyd wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae perfformiad mewn Cymraeg ar lefel 6 neu'n uwch wedi bod yn gyson uwch nag ydyw ar gyfer Saesneg ond yn is nag ydyw ar gyfer mathemateg a gwyddoniaeth yn ystod y cyfnod hwn.

**Ffigwr 5: Canran y disgyblion yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 5) ac uwchlaw'r lefel ddisgwyliedig (lefelau 6 a 7+) mewn llafaredd, darllen ac ysgrifennu Cymraeg ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 (2013-2017)**






Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2017e)

Bu cynnydd mewn perfformiad ymhob un o'r targedau cyrhaeddiad ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 5 ac yn uwch) dros y pum mlynedd diwethaf. Gwelwyd y cynnydd mwyaf yn natblygiad medrau ysgrifennu disgyblion, serch hynny, perfformiad mewn gwaith llafar sydd gryfaf o hyd. Mae'r bwlch rhwng perfformiad llafar ac ysgrifennu wedi cau yn ystod y cyfnod hwn.

Bu cynnydd mewn perfformiad ymhob un o'r targedau cyrhaeddiad ar lefelau 6 a 7 neu uwch dros y pum mlynedd diwethaf. Mae'r cynnydd yn debyg o ran y medrau i gyd ac mae'r perfformiad mewn gwaith llafar a darllen yn parhau i fod yn gryfach nag ydyw mewn ysgrifennu. Nid yw'r bwlch rhwng cyrhaeddiad yn y medrau hyn wedi cau yn ystod y cyfnod hwn.

**Ffigwr 6: Canrannau y bechgyn a'r merched yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 5) ac uwchlaw'r lefel ddisgwyliedig (lefelau 6 a 7+) mewn llafaredd, darllen ac ysgrifennu Cymraeg ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 (2013-2017)**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2017e)

Mae bechgyn wedi gwneud mwy o gynnydd o ran datblygu eu medrau iaith na merched yn ystod y pum mlynedd diwethaf ac maent wedi llwyddo i haneru'r bwlch

cyrhaeddiad ar draws y targedau cyrhaeddiad. Fodd bynnag, mae merched yn parhau i berfformio'n well na bechgyn ym mhob un o'r medrau iaith mewn Cymraeg dros y cyfnod hwn ac yn enwedig felly mewn ysgrifennu.

Mae bechgyn wedi gwneud cynnydd cryf ar lefel 6 yn ystod y pum mlynedd diwethaf, ac wedi cau'r bwlch ymhob targed cyrhaeddiad ac eithrio ysgrifennu. Mae'r bechgyn wedi gwneud cynnydd, ond ar raddfa lai ar lefel 7 ac uwch hefyd. Mae'r merched, fodd bynnag, wedi gwneud cynnydd cadarnach ac mae'r bwlch rhwng perfformiad ar y lefelau uchaf wedi cynyddu dros y pum mlynedd diwethaf.

## Atodiad 2: Sail y dystiolaeth

Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn defnyddio:

- ymweliadau ag 20 o ddarparwyr, gan gynnwys ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, un ysgol bob oed a dwy ganolfan iaith
- data o asesiadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3

Mae'r sampl o ysgolion mor amrywiol ag y bo modd ac wedi'i seilio'n bennaf ar gyd-destun ieithyddol, lleoliad daearyddol a ffactorau economaidd gymdeithasol.

Roedd yr ymweliadau'n cynnwys:

- cyfweliadau ag uwch arweinwyr, arweinwyr pwnc a disgyblion
- arsylwi dwy wers i arfarnu safonau ac ansawdd yr addysgu yn y ddau gyfnod allweddol
- cyfweliadau â disgyblion i gynnwys craffu ar eu gwaith Cymraeg a chasglu eu safbwyntiau ar y ddarpariaeth a'r profiadau a gynigir gan yr ysgol
- craffu ar ddogfennau ysgol, gan gynnwys adroddiadau a chynlluniau gwella diweddaraf yr ysgolion ac adrannau Cymraeg

Hoffai Estyn ddiolch i'r ysgolion canlynol a gefnogodd yr adolygiad thematig hwn:

Ysgol Gymraeg Aberystwyth
Ysgol Y Frenni, Crymych
Ysgol Saron, Rhydaman
Ysgol Dafydd Llwyd, Y Drenewydd
Ysgol Rhostryfan, Caernarfon
Ysgol I D Hooson, Rhosllannerchrugog
Canolfan Iaith Cynradd, Gwynedd, Llangybi
Canolfan Iaith Uwchradd Gwynedd, Porthmadog
Ysgol Gymraeg Pwll Coch, Caerdydd
Ysgol Gymraeg Sant Baruc, Y Barri
Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James, Pontypridd
Ysgol Gymraeg Casnewydd
Ysgol Gymraeg Caerffili
Ysgol Bro Teifi, Llandysul
Ysgol y Preseli, Crymych
Ysgol Maes y Gwendraeth, Cefneithin
Ysgol Gyfun Gwynllyw, Pontypŵl
Ysgol Gyfun Llangefni
Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda
Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy
Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr, Caerdydd

## Atodiad 3: cwestiynau i ysgolion eu hystyried fel rhan o'u hunanarfarniad

Fel man cychwyn ar gyfer adolygu arfer bresennol mewn Cymraeg, gall ysgolion ddefnyddio'r cwestiynau canlynol fel rhan o'u hunanarfarniad

**Safonau**

1 A yw disgyblion yn gwneud y cynnydd gorau posib yn y Gymraeg?
2 A yw cyrhaeddiad disgyblion yn y Gymraeg yn cymharu'n ffafriol â chyrhaeddiad y rheini mewn ysgolion tebyg?
3 A yw disgyblion yn parhau i ddatblygu eu medrau iaith Gymraeg wrth drosglwyddo rhwng y cyfnodau allweddol gwahanol?
4 A yw disgyblion yn arddangos agweddau cadarnhaol a mwynhad wrth ddysgu Cymraeg?

**Darpariaeth**

5 A yw trefniadaeth y cwricwlwm a'r dyraniad amser yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd da a chynnal hwnnw yn y Gymraeg?
6 A ydym yn cynllunio'r gweithgareddau dysgu fel eu bod yn atgyfnerthu medrau iaith y disgyblion?
7 Beth yw ansawdd yr addysgu? A ydym yn rhoi digon o bwyslais ar lafaredd? A yw'n hathrawon yn fodelau iaith da?
8 A oes parhad rhwng cyfnodau allweddol ac ar draws cyfnodau allweddol o ran profiadau disgyblion yn y Gymraeg?
9 A yw'r disgyblion yn cael cyfleoedd digonol i ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg mewn ystod o sefyllfaoedd y tu allan i wersi Cymraeg?

**Arweinyddiaeth**

10 A yw ethos yr ysgol yn hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru ac agweddau cadarnhaol tuag atynt yn ddigon da?
11 A oes gennym ddarlun cywir o'r hyn y mae angen ei wneud i wella deilliannau a darpariaeth yn Gymraeg?
12 A oes digon o staff sy'n gallu dysgu Cymraeg yn effeithiol? A yw'n hathrawon yn gymwys i addysgu Cymraeg?
13 A ydym yn darparu cymorth / dysgu proffesiynol o ansawdd da ar gyfer athrawon Cymraeg anarbenigol a staff eraill yn yr ysgol?
14 A ydym yn gweithio'n dda mewn partneriaeth â darparwyr eraill?
15 Beth yw ansawdd y cydweithio rhwng ysgolion cynradd a grwpiau cyn-ysgol a rhwng ysgolion uwchradd ac ysgolion cynradd partner i sicrhau cysondeb, parhad a dilyniant o ran y medrau Cymraeg?
16 A ydym yn manteisio ar y cyfleoedd sy'n cael eu cynnig gan gyrff a mudiadau eraill?

## Geirfa

| | |
|---|---|
| **Anghenion dysgu ychwanegol** | Mae gan ddisgybl anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo / ganddi anhawster neu anabledd dysgu sydd yn hawlio darpariaeth dysgu ychwanegol. |
| **Cymedroli** | Mae cymedroli'n digwydd pan gaiff gwaith disgyblion ei asesu ar ddiwedd cyfnod allweddol ac fe gaiff barn 'gweddu orau' ar lefel cyrhaeddiad disgybl unigol ei llunio. |
| **Chwe thestun anllenyddol** | Cytunir yn gyffredinol fod chwe phrif fath o destun anllenyddol, sef:<br>• Adrodd – defnyddir hwn i ail-ddweud digwyddiadau, fel hunangofiannau a dyddiaduron<br>• Cyfarwyddyd – defnyddir hwn i ddisgrifio sut caiff rhywbeth ei wneud trwy gyfres o gamau mewn dilyniant<br>• Adroddiadau anghronolegol – defnyddir y rhain i ddisgrifio cymeriadau; y sefyllfa sydd ohoni neu i roi gwybodaeth, fel adolygiadau o lyfr neu ddrama<br>• Esboniad – defnyddir hwn i esbonio proses neu'r ffordd y mae rhywbeth yn gweithio neu achos ac effaith, fel digwyddiad a'i effeithiau dilynol<br>• Argyhoeddi – defnyddir hwn i argyhoeddi'r darllenydd i gytuno neu ddadlau'r achos dros safbwynt, gan gynnwys posteri a hysbysebion<br>• Thrafod – defnyddir hwn i gyflwyno dadleuon a gwybodaeth o safbwyntiau gwahanol, fel manteision ac anfanteision erthygl papur newydd neu raglen deledu |
| **Mwy abl a thalentog** | Yng Nghymru, mae'r term 'mwy abl a thalentog' yn cyfeirio at tua 20% o ddisgyblion y mae angen cyfleoedd cyfoethocach neu estynedig arnynt i ddatblygu eu gallu neu dalent mewn un neu ragor o feysydd (h.y. academaidd, ymarferol, creadigol ac artistig). |
| **Safoni** | Mae safoni yn cynnwys proses o ddefnyddio samplau o waith yr un dysgwr neu ddysgwyr gwahanol i alluogi athrawon i gytuno ar lefelau cyrhaeddiad trwy gadarnhau dealltwriaeth ar y cyd o nodweddion lefel. |
| **Uwch-fedrau darllen** | Wrth ddarllen at wahanol ddibenion, mae uwch-fedrau darllen fel arfer yn cynnwys:<br>• darllen yn agos i amsugno gwybodaeth<br>• cip ddarllen (sgimio) testun yn gyflym i gael argraff gyffredinol<br>• llithr ddarllen (sganio) i chwilio am fanylion<br>• darllen yn feirniadol, fel asesu grym barn neu ddadl |

- darllen yn ddadansoddol i ystyried defnydd yr ysgrifennwr o iaith
- darllen gydag ymwybyddiaeth o safbwynt yr ysgrifennwr mewn cyferbyniad ag ymddygiad neu safbwynt cymeriad mewn testun
- llunio casgliad a diddwytho
- cydnabod nad yw’r testun bob amser yn golygu’r hyn y mae’n ei ddweud, er enghraifft o ran eironi, tueddiad ac amwysedd
- deall gwahanol lefelau o ystyr
- darllen yn werthfawrogol, fel cydnabod medrau’r ysgrifennwr wrth ddefnyddio syniadau, technegau ac effeithiau
- dod o hyd i ffynonellau priodol ac adalw gwybodaeth
- defnyddio dyfais fel marcio testun a chymryd nodiadau
- nodi pwyntiau allweddol, gwneud cymariaethau a chyfosod gwybodaeth a deunyddiau o wahanol ffynonellau
- arfarnu testunau o ran ansawdd, effaith a dibynadwyedd

## Rhifau – meintiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron bob un = | gydag ychydig o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | o dan 40% |
| ychydig = | o dan 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

# Cyfeiriadau

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf [Cyrchwyd 9 Mawrth 2017]

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2015) *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*. Llundain: The Stationery Office. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents/enacted/welsh [Cyrchwyd 12 Mawrth 2018]

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/100420welshmediumstrategycy.pdf [Cyrchwyd 9 Ionawr 2018]

Llywodraeth Cymru (2012) *Iaith fyw: iaith byw - Strategaeth y Gymraeg 2012 – 2017*. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/122902wls201217cy.pdf [Cyrchwyd 9 Ionawr 2018]

Llywodraeth Cymru (2016) Cwricwlwm i Gymru*: Rhaglen Astudio ar gyfer Cymraeg, Cyfnodau Allweddol 2–4*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150717-nc-welsh-cy-ve3.pdf [Cyrchwyd 23 Chwefror 2017]

Llywodraeth Cymru (2017a) *Y Gymraeg mewn addysg: Cynllun gweithredu 2017-21*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/171212-welsh-in-education-action-plan-2017-21-cy.pdf [Cyrchwyd 29 Ionawr 2018)

Llywodraeth Cymru (2017b) *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun gweithredu 2017-21*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/170926-education-in-wales-cy.pdf [Cyrchwyd 29 Ionawr 2018)

Llywodraeth Cymru (2017c) *Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion.* Heb ei gyhoeddi

Llywodraeth Cymru (2017d) *Canlyniadau, fesul pwnc, blwyddyn a rhyw.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru [Ar-lein]. Ar gael o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Key-Stage-2/results-by-subject-year-gender [Cyrchwyd 12 Mawrth 2018]

Llywodraeth Cymru (2017e) *Canlyniadau, yn ôl pwnc a blwyddyn.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Key-Stage-3-Core-Subjects/results-by-subject-year [Cyrchwyd 12 Mawrth 2018]